# CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071

Rhifyn 311 - 60c
Mawrth 2013

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg


**Iolo Williams yn Ysgol y Dderi**



Tudalen 24

**Cadwyn Cyfrinachau arall**




Tudalen 11

**Lluniau Gŵyl Dewi**



# Pobl Ifanc Dalentog a Gweithgar





Adroddiad Eisteddfod Bro Pedr ar dudalen 14.

Meirion Thomas Blwyddyn 9 yn ennill y gadair yn Eisteddfod Uwchradd Ysgol Bro Pedr. Ef oedd yn ail hefyd a'i frawd Llion yn drydydd.



Enillydd y Goron am waith yn Saesneg yn Eisteddfod Uwchradd Ysgol Bro Pedr oedd Cari Lake, a hi hefyd oedd yn ail yn y gystadleuaeth.





Adroddiad Mudiad y Ffermwyr Ieuainc ar dudalen 8.

Pobl ifanc ardal Clonc yn aelodau'r flwyddyn gyda'r Clybiau Ffermwyr Ieuainc yn y ddwy sir: Gwennan Davies, Clwb Llanwenog (chwith) yn cael ei dewis yn Aelod Hŷn y Flwyddyn, CFfI Ceredigion; Ifor Jones, Clwb Llanllwni (uchod) hawliodd deitl Aelod Iau y Flwyddyn CFfI Sir Gaerfyrddin a Carwyn Davies, Clwb Llanwenog (dde) yn cael ei ddewis yn Aelod Iau y Flwyddyn, CFfI Ceredigion.

# Perfformwyr Llwyddiannus



Clwb Llanwenog yn ennill y marciau uchaf fel clwb yng nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg CFfI Ceredigion. Adroddiad ar dudalen 10.


CLONC








Yng Nghystadleuaeth Ddarllen CFfI Sir Gaerfyrddin daeth canlyniadau arbennig i Glwb Llanllwni. Yn sicr, bore'r crysau gwyrddion oedd hi! Daeth tîm Betsan Jones, Rhian Davies a Luned Jones yn fuddugol o blith un-ar-ddeg o dimau, ac fe ddaeth tîm Sioned Howells, Siriol Howells a Mared Phillips yn ail! Derbyniodd Betsan y cwpan am yr unigolyn gorau, a hynny am yr ail waith. Cafodd Betsan a Sioned eu dewis i fynd ymlaen i gystadlu ar lefel Cymru ymhen y mis.



Llongyfarchiadau i Aron Dafydd, Dewi Uridge a Gethin Morgan Clwb Bro'r Dderi a ddaeth yn drydydd fel tîm yn y gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus dan 16 CFfI Ceredigion. Llongyfarchiadau arbennig i Aron a ddaeth yn gydradd ail fel siaradwr.

# Pwy yw pwy?

**Golygydd:**

| | | |
|---|---|---|
| Mawrth ac Ebrill | Elaine Davies, Penynant, Llanwnnen | 480526 |
| e-bost: | golygydd@clonc.co.uk | |
| Tîm Golygyddol: | Elaine Davies, Dylan Lewis, Rhian Lloyd, Marian Morgan a Delyth Phillips | |
| Dylunydd y mis: | Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann | 422349 |
| Swyddog Dosbarthu | Eifion Davies, Afallon, Drefach | 480590 |
| e-bost: | bedwyr@btopenworld.com | |
| Teipydd | Nia Davies, Maesglas, Drefach | 480015 |

**Gohebwyr Lleol:**

| | | |
|---|---|---|
| Cellan | Alwen Edwards, Awel Teifi | 421001 |
| Cwmann | Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen | 422922 |
| Cwmsychbant | Mary Davies, Maesglas, Drefach | 480015 |
| Llanwenog/Drefach | Mary Davies neu Eifion Davies | |
| Ffaldybrenin/Ffarmers | Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers | 01558 650507 |
| Gorsgoch | Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod | 434238 |
| Llambed | Janet Evans, Haulfryn | 422856 |
| Llanfair | Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn | 493407 |
| Llangybi a Betws | Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon | 493325 |
| Llanllwni | Dewi Davies, Glanafon | 480218 |
| Llanwnnen | Elin Thomas, 1 Teras Sycamor | 480239 |
| Llanybydder | Menna Jones, Ceginau Lifestyle | 480257 |
| Pencarreg | Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf | 422270 |

# Beth yw beth?

**Bwrdd Busnes:**

| | | |
|---|---|---|
| Cadeirydd | Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann | 422349 |
| e-bost: | cadeirydd@clonc.co.uk | |
| Is-Gadeirydd | Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach | 481855 |
| Ysgrifenyddes | Mary Davies, Maesglas, Drefach | 480015 |
| Trysorydd | Nia Davies, Maesglas, Drefach | 480015 |
| e-bost: | ysgrifennydd@clonc.co.uk | |
| Ceidwad y Camera | Janet Evans, Haulfryn, Llambed | 422856 |
| Ffotograffydd | Tim Jones, Llainwen, Llambed | 422644 |
| Argraffwyr | Gwasg Aeron, Aberaeron | 01545 570573 |

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogir gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhaodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Crown Stores, Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu llun plant i'w gynnwys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
- Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: **www.clonc.co.uk** os am fwy o wybodaeth.
- Beth am ddilyn Clonc ar: Gweplyfr - **www.facebook.com/clonc** a Trydar - **@Cloncyn**
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.
- Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes.
- Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

# Siprys

**Twyll**

Mae saga'r cig ceffyl yn mynd i barhau am amser. Mae'r mwyafrif ohonom wedi colli ffydd mewn bwydydd parod; yn gyntaf am nad ydym am gael ein twyllo, yn ail, am nad ydym eisiau bwyta cig ceffyl. Mwyaf tebyg fod y mwyafrif ohonom wedi ei fwyta heb yn wybod i ni, yn enwedig ar deithiau tramor. Dyna un o'm cyd athrawon a oedd wedi treulio amser yn y Dwyrain Pell ac wedi profi a mwynhau stecen o gig ceffyl yn archebu cig eidion mewn gwesty yn Sir Benfro. Un tamaid a flasodd cyn adnabod fod pedolau wedi bod dan draed yr anifail yma ac fe alwodd y rheolwr a dweud wrtho nad oedd am gael ei dwyllo. Do, fe gafodd e a'i bartner y pryd bwyd a'r gwin am ddim. Digwyddodd hyn dros ddeugain mlynedd yn ôl. Na! Nid oes dim byd yn newydd parthed 'twyllo'.

**'Sgam!'**

Ydych chi'n cael y galwadau yma sy'n honni fod perthynas pell i chi wedi gadael arian a bod eisiau i chwi ddanfon swm sylweddol atynt, cyn iddynt fedru prosesu eich cais? Dyma pryd bydda i'n rhoi'r ffôn lawr bob amser. Bore 'ma, daeth galwad arall yn dweud fod gennym broblem gyda'r cyfrifiadur, dweud wrthym am fynd i'w droi ymlaen. Dim peryg – rhoi'r ffôn i lawr unwaith eto. Mae llawer iawn yn cael eu dal neu ni fuasai'n werth i'r rhain dreio'n twyllo. Un peth a ddysgais yn ifanc iawn –'nid oes dim byd am ddim'. Abwyd yw'r mwyafrif o'r rhain i'n cael i brynu rhagor. Pan welwch dameidiau o fwyd ar blât i'ch denu i'w blasu, gwnewch, ond peidiwch â meddwl bod rhaid ei brynu chwaith.

**Croeso.**

Gwelaf fod siop neu ddwy yn ail agor yn Llambed a Llanybydder. Dymunwn yn dda iddynt. Po fwyaf y siopau mewn tref, maen nhw'n atyniad da ac yn denu mwy o bobol. Un gwyn rwy'n ei chlywed yw fod 'na ddim siop sgidie yn y dre. Oes, mae 'na rai sy'n gwerthu ychydig o sgidie ond bach iawn yw'r dewis. Ar y llaw arall, y gwyn yw fod cael digon o stoc o bob maint a phob steil yn ddrud ofnadwy ac yn ddigon i greu ofn ar werthwyr.

**Cadw Dyddiadur.**

Hyfryd oedd clywed Rod a Rosie o Lanfihangel ar Arth, ar raglen Iola yn sôn am gadw dyddiaduron; diddorol iawn. Mae hwn yn un peth nad wyf i wedi ei wneud erioed ond dwi'n difaru erbyn hyn. Nid oes cof da gennyf a mae'r rhai ohonoch sy'n dilyn Siprys yn rheolaidd yn gwybod hynny gan fy mod yn cael fy atgoffa yn aml, 'Rwyt ti wedi dweud hwnna o'r blaen'. A sôn am y cyfryngau, mae gweld cymeriadau lleol yn cyfrannu i Ganiadaeth y Cysegr wedi bod o ddiddordeb mawr.

Dyma'r cyfan am y tro,

*CLONCYN.*

# Newyddion lleol digidol

**Newyddion lleol i'r funud**

Yn ogystal â bod yn bapur bro, mae Clonc yn darparu gwasanaeth newyddion lleol i'r funud drwy wefan www.clonc.co.uk , trydar a gweplyfr.

Os y gwyddoch am heol ar gau, damwain ffordd, lladrad, tân, llifogydd neu ddigwyddiad perthnasol arall gallwch rannu'r cyfan ar wal Clonc ar y gweplyfr neu wrth drydar @Cloncyn . Yn yr un modd, gallwch rannu llwyddiannau lleol fel canlyniadau eisteddfodau a chystadlaethau'r Ffermwyr Ieuainc neu'r Urdd. Os nad ydych yn defnyddio gweplyfr neu trydar, gallwch e-bostio cadeirydd@clonc.co.uk ac fe gaiff y newyddion eu rhannu. Os oes camera neu ffôn yn eich poced, tynnwch lun a'i rannu yn yr un ffordd.




**Teledu Clonc**

Yn ogystal â hyn, mae gan wefan Clonc wasanaeth teledu er mwyn arddangos digwyddiadau lleol. Os oes gennych recordiad o rywbeth yn eich ardal chi, uwchlwythwch y recordiad i YouTube a danfon dolen at cadeirydd@clonc.co.uk ac fe arddangosir eich recordiad ar Deledu Clonc.

Efallai y gwelir datblygiadau pellach yn y cyfeiriad hwn yn y dyfodol, ond yn y cyfamser, gofynnir i ddarllenwyr Clonc rannu newyddion lleol drwy wefannau Clonc:

**www.clonc.co.uk ~ www.facebook.com/clonc ~ Trydar: @Cloncyn**

Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno â'r farn a adlewyrchir yn mhob un o erthyglau CLONC.

Cydnabyddir cefnogaeth
Ariennir gan Llywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Dyddiadur

ysgrifennydd@clonc.co.uk

**MAWRTH**

7 - Eisteddfod Gynradd yr Urdd Cylch Llambed.
8 - Eisteddfod Uwchradd yr Urdd Cylch Llambed.
8 - Dawns Dewis Swyddogion C.Ff.I. Ceredigion yn Tyglyn Aeron.
10 - Cymanfa Ganu Brenhines a Ffermwr Ifanc C.Ff.I. Ceredigion yng Nghapel Glynarthen am 7.30pm £4.
10 - Cymdeithas Cerdd Llambed yn cyflwyno Inner City Brass am 2.30yp yn Neuadd y Celfyddydau, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.
12 - Pwyllgor Carnifal Cwmann yng Nghanolfan y Pentref 7.30yh.
13 - Gyrfa Chwist Hafan Deg.
15 - Eisteddfod Uwchradd Rhanbarth yr Urdd, Ceredigion ym Mhafiliwn Bont.
17 - Oedfa'r Ifanc yn Noddfa am 4.00y.p
18 - Eisteddfod Aelwydydd Rhanbarth yr Urdd yn Ysgol Gymraeg Aberystwyth.
18 - Bingo Pasg yn Nhafarn Talardd Llanllwni am 8y.h, gwobrau ardderchog - elw tuag at Gylch Meithrin Llanllwni.
20 - Eisteddfod Dawns Rhanbarth yr Urdd Ceredigion ym Mhafiliwn Bont.
20 - Arwerthiant Blynyddol Capel Aberduar, Llanybydder am 7.00y.h.
21 - Oedfa Eciwmenaidd yn Noddfa am 7.00y.h.
21 - Cyfarfod Transition Llambed yn Neuadd Fictoria am 7yh.
22 - Côr Corisma, Côr Meibion Cwmann, Rajesh David - Gŵyl i ddathlu cerddoriaeth gysegredig yn Neuadd Fictoria, Llambed am 7yh.
22 - Disgo dewis Breninesau Carnifal Llanybydder yng Nghlwb Rygbi Llanybydder am 6.30 (Pwyllgor Pentref Llanybydder).
23 - Eisteddfod Gynradd Rhanbarth yr Urdd Ceredigion ym Mhafiliwn Bont.
23 - Pwnc - Traddodiadau Canu Cysegredig Cymreig dan arweiniad y Parch Eirian Wyn Lewis - Hen Neuadd y Coleg am 2yp.
23 - Offeren Heddwch dan arweiniad Karl Jenkins a'r Tangnefeddwyr dan arweiniad Eilir Owen Griffiths Neuadd Celfyddydau'r Coleg 7yh.
24 - "Taith Dros Fywyd" i godi arian i Sefydliad Aren Cymru. Dechrau gyferbyn ag Ysgol Cwmann am 10.30yb.
24 - Cymundeb a Gorymdaith Sul y Blodau - Capel y Drindod Dewi Sant am 11yb.
24 - Pryd a Cherddoriaeth Gysegredig yn Neuadd San Pedr, Llanbed am 12.45yp.
26 - Bingo Ysgol Feithrin Llanybydder yng Nghlwb Rygbi Llanybydder am 8 (Ysgol Feithrin Llanybydder)
27 - Gyrfa Chwist Hafan Deg.
29 - Noson Tip-it yn Nhafarn Cefn Hafod, Gorsgoch am 7.30y.h. Elw tuag at Ganolfan Therapi Plant Cymru yng Nghaerdydd.

**EBRILL**

1 - 'Cynnyrch y Cwm' yn Festri Capel y Cwm rhwng 1.30y.p. a 4.40y.p.
1 - Taith tractorau i ddechrau o Cross Roads, Llanllwni am 10.30 yb, manylion: 01559384279. Elw tuag at Ward 6 Ysbyty Llanelli.
3 - Eisteddfod Capel-y-Groes, Llanwnnen i ddechrau am 1:30 y.p gyda'r adran gyfyngedig
4 - Taith Cludiant Cymunedol Ceredigion yn Swyddfa CAVO, Llanbed.
5 – 13 - 'Lap o Gymru'.
6 - Cinio Cadeirydd Siambr Fasnach Llanbed yn y Coleg. Tocynnau ar gael gan aelodau'r Siambr. Elw tuag at Elusen Parkinsons.
7 - Cyrddau Gwanwyn yr Undodiaid yng Nghapel Cribyn am 1.30y.p.
7 - Rihyrsal Cymanfa Ganu'r Undodiaid yng Nghapel y Groes. Plant a'r Ieuenctid am 4.00y.p a'r Oedolion am 5y.p.
9 - Pwyllgor Carnifal Cwmann yng Nghanolfan y Pentref 7.30yh.
13 - Barbeciw ac Adloniant yng Nghlwb Rygbi Llanybydder i groesawu 'Lap o Gymru' nôl i Lanybydder.
14 - Taith tractor i ddathlu 70 mlwydd C.Ff.I Llanllwni i ddechrau o T.L.Thomas, Llanllwni am 10.30yb.
14 - Rihyrsal Cymanfa Ganu'r Bedyddwyr yn Noddfa am 2.00y.p.
14 - Rihyrsal Cymanfa Ganu'r Undodiaid yng Nghapel Bwlch-y-fadfa. Plant a'r Ieuenctid am 4.00y.p a'r Oedolion am 5y.p.
15 - Gala Nofio C.Ff.I. Ceredigion.
17 - Bingo Cymdeithas Amaethyddol Llanbed am 7.30 o'r gloch yn y Clwb Rygbi Llanbed.
20 - Cyngerdd Côr Meibion De Cymru gyda'r artistiaid Ina Morgan a'r delynores Georgina Cornock-Evans yn Neuadd Bro Fana, Ffarmers.
21 - Rihyrsal Cymanfa Ganu'r Undodiaid yng Nghapel y Bryn. Plant a'r Ieuenctid am 4.00y.p a'r Oedolion am 5y.p.
26 - Cyngerdd Côr Corisma, Neuadd Sant Iago, Cwmann.
27 - Diwrnod Chwaraeon C.Ff.I. Ceredigion.
27 - Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch ger Aberystwyth.
28 - Cymanfa Ganu yr Undodiaid yng Nghapel y Bryn, Cwrtnewydd am 2.00y.p a 5.30y.h.

# Llanfair

**Pen-blwydd Arbennig**

Llongyfarchiadau cynnes i Mathew Miller, Cysgod y Coed ar gyrraedd ei ben-blwydd yn ddeunaw oed yn ddiweddar. Pob lwc iti i'r dyfodol.

**Cydymdeimlad**

Estynnwn gydymdeimlad dwys â Lesley a Jane Stevens ar farwolaeth eu tad yn ddiweddar.

**Gwellhad Buan**

Dymunwn wellhad buan i Mr Harry Hartwell, Heulwen sydd wedi bod yn yr ysbyty yn Bronglais.

**Chwaraeon nos Sadwrn**

Ar hyn o bryd mae nos Sadwrn yn brysur iawn yn y neuadd, naill ai gyda Bowlio Matiau Byr neu gemau bwrdd. Mae'r nosweithiau hyn yn boblogaidd iawn ac yn rhoi llawer o hwyl a chyfle i'r pentrefwyr gymdeithasu.

**Marchnad Lunar**

Mae'r farchnad boblogaidd yma wedi ail ddechrau eto ac yn cael ei chynnal ar y dydd Sadwrn cyntaf yn y mis yn y neuadd.

# Gorsgoch

**Gor Ŵyr**

Llongyfarchiadau i Gwilym ac Eirwen Evans Gwynfryn ar ddod yn hen ddad-cu a mam-gu yn ddiweddar. Merch fach sef Cadi Megan i Arwel a Donna.

**Gwellhad Buan**

Dymunwn wellhad buan i Mrs Sally Thomas Is y Coed sydd ar hyn o bryd yn yr ysbyty. Gobeithio eich gweld adref yn fuan.


Braf yw gweld Dai Evans wedi gwella'n llwyr ar ôl ei lawdriniaeth yn ddiweddar.

**Cartref Newydd**

Pob lwc i Enfys Hatcher ac Emyr Davies yn eu cartref newydd yn Llanddewi Brefi, sef Awel y Bryn. Dymuniadau gorau ac hapusrwydd iddynt.

**Rasys Parlwr**

Cynhaliwyd rasys parlwr llwyddianus yng Nghefn Hafod yn ddiweddar. Trefnwyd y noson gan Llyr Davies sy'n un o 9 o feicwyr sy'n seiclo 687.8 milltir mewn 9 diwrnod o amgylch Cymru i godi arian tuag at Ymchwil Cancr. Cafwyd dechrau da i'r casglu gyda llawer o sbort yn y rasys parlwr.



Ruby Rose
Bwtîc anrhegion
a chartref hynafol.
23 Stryd y Bont, Llanbed
01570 422359
rubyroselampeter@hotmail.co.uk





Mwnci ffwnci

Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.
Sioned Green
a Mared Jones
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambed
01570 423135
07811917799 /
07968821035
mwnciffwnci@hotmail.com

Gwasanaethau Coed Teifi
Tree Services

Pob math o waith ar goed
Torri cloddiau * Plygu cloddiau
Wedi yswirio'n llawn
Dyfynbris am ddim
Coed tân ar werth
Lyn Davies
01239 851001 / 07796 682448

Sefydlwyd 1797
D. Lloyd a'i Feibion
Glanrwyth, Pumsaint,
Ffôn: 01558 650209 a 650451,
Ffacs: 01558 650440


# Cwmsychpant

**Siarad Cyhoeddus Cymraeg**

Ar ddydd Sul olaf mis Chwefror cynhaliwyd cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg C.Ff.I. Ceredigion ar gampws Theatr Felinfach. Bu nifer o blant y Cwm yn cystadlu yno. Cafodd Meleri Davies, Tyngrug Isaf [Clwb Llanwenog] 1af fel Diolchydd dan 16 oed. Meinir Davies, Caerwenog [Clwb Llanwenog] 2il fel Cadeirydd dan 16 oed. Roedd Meleri, Meinir ynghyd â Sioned Fflur yn y tîm buddugol dan 16 oed. Dan 21 oed – cafodd Sioned Davies, Llys y Wawr [Clwb Llanwenog] 1af fel Cadeirydd.



Dan 26 cafodd Einir Ryder, Tyngrug-ganol [Clwb Pontsian] 1af fel Cadeirydd ac roedd hefyd yn aelod o'r tîm buddugol dan 26oed. Bydd yr enillwyr uchod i gyd yn mynd ymlaen i gynrychioli Ceredigion yng Nghymru canol mis Mawrth yn Llanelwedd. Da iawn chi gyd a phob lwc i chi gyd i'r dyfodol.

**Pen-blwydd**

Dathlodd Mrs Elenid Jones, Talar Wen ben-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Hefyd dathlodd Mrs Ella Davies,Waun ei phen-blwydd yn 90oed yn ystod y mis. Gobeithio eich bod wedi mwynhau eich diwrnodau arbennig.

**Newid Swydd**

Pob dymuniad da i Janet Davies, Llys y Wawr ar ei swydd newydd yng nghartref Hafan Deg, Llambed. Roedd Janet wedi treulio blynyddoedd maith yn gweithio yng Nghartrefi Cwm Aur a'r Annedd yn Llanybydder cyn iddi newid cyfeiriad a mynd i Lambed.

**Aelod Iau y C Ff I 2013-2014**

Llongyfarchiadau i Carwyn Davies, Caerwenog ac aelod o G.Ff. I. Llanwenog ar gael ei ddewis yn Aelod Iau C.Ff.I. Ceredigion am y flwyddyn nesaf. Pob dymuniad da am y flwyddyn nesaf.

**Cynnyrch y Cwm**

Os am rywbeth gwahanol i'w wneud ar Ddydd Llun y Pasg, beth am alw mewn i Festri Capel y Cwm rhwng 1:30 a 4:30 y.p i 'Gynnyrch y Cwm' – cyfle i weld doniau ein haelodau ar eu gorau. Pris mynediad bydd £3.00 gan gynnwys paned a chacen. Rwy'n addo na chewch eich siomi - diwylliant Cefn Gwlad ar ei orau.

**Diolch**

Hoffai Ella Davies, Waun ddiolch o galon i bawb am yr holl gardiau, anrhegion a dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau mawr i Carwyn Davies, Caerwenog ar ennill Cystadleuaeth Sgiliau Cymru mewn gwaith saer yn ddiweddar. Pob lwc iddo wrth gynrychioli Cymru yn rownd Prydain yn ystod mis Mawrth.

# Pencarreg

**Aduniad**

Mae dyddiad Aduniad Ysgol Pencarreg wedi cael ei daflu ymlaen. Y dyddiad bellach fydd dydd Sadwrn yr 22ain o fis Mehefin yn y Llew Du, Llanybydder. Rydym yn trefnu bwyd blasus ac mae'r enwog Gareth o Gegin Gareth, Goedwig yn mynd i grasu cacen ar gyfer yr aduniad.

Ewch ati nawr i dwrio a chasglu lluniau ac unrhyw fath o arteffactau, hanesion a straeon sydd gennych ynghlwm â'r ysgol ym Mhencarreg.

Bydd croeso i gyn-ddisgyblion ddod ag unrhyw un sydd yn gysylltiedig â'r ysgol yn gwmni iddynt. Gweler rhagor o fanylion yn CLONC mis Ebrill. Rhif ffôn cyswllt – 01570 422270. Codwch y ffôn. Noson anffurfiol hapus fydd hon!

# Clwb Clonc

**Mawrth 2013**

£25 rhif 200 :
Mrs Beti Jacob,
Gorwel, Llanybydder.
£20 rhif 70 :
Dannie Davies,
Llaingors, Gorsgoch.
£15 rhif 64 :
Mrs Gillian Davies,
Brynteg Cottage, Brynteg,
Llanybydder.
£10 rhif 6 :
Mrs Myfanwy Bryce,
20 Penbryn, Llambed.
£10 rhif 483 :
Rhun Wilson,
Lluest, Llanfihangel-ar-Arth.
£10 rhif 120 :
Mrs Meinir Ebbsworth,
Brynamlwg, Llanwnnen.

# Silian



Ymwelodd Tywysog Charles â Choleg Cerdd a Drama i nodi lansio apêl ysgoloriaeth newydd ar gyfer y coleg. Cyfarfu'r Tywysog â'r pump a dderbyniodd yr ysgoloriaeth newydd. Un o'r rhai llwyddiannus oedd Elliw Dafydd, Gwarffynnon a dderbyniodd yr ysgoloriaeth actio. Llongyfarchiadau calonnog iddi.

# Llanllwni



Plant a gofalwyr Ysgol Feithrin Llanllwni ar Ddydd Gŵyl Dewi. Newyddion Llanllwni ar dudalen 21.

# Gohebiaeth

**Taith Cludiant Cymunedol Ceredigion**

Mae Cludiant Cymunedol Ceredigion, trwy eich gwaith caled chi, wedi datblygu'n ddirfawr dros y blynyddoedd diwethaf. Mae ein gwasanaethau wedi ehangu; gyda'r Bysus Bro a'r Bysus Bro Bach yn darparu nifer o wasanaethau ychwanegol i'r grwpiau ac unigolion yn y Trydydd Sector. Cyhoeddwyd Cyfeirlyfr Cludiant Cymunedol o'r holl wasanaethau sydd ar gael trwy'r grwpiau Cludiant Cymunedol yng Ngheredigion. Rydym yn datblygu Cronfa Data Gyrwyr Gwirfoddol , a bydd hwn yn cael ei lawnsio ym mis Mawrth. Caiff Gwefan Cludiant Cymunedol Ceredigion a Chofrestr Bachu Bws ei lawnsio hefyd. Bydd y tri datblygiad yma'n adnodd canolog ar gyfer yr holl Grwpiau Cludiant Cymunedol, Grwpiau'r Trydydd Sector, Cyrff Statudol a gwirfoddolwyr unigol. Rydym ni yn yr Adran Cludiant Cymunedol eisiau hybu'r datblygiadau newydd a thynnu sylw i'r gwasanaethau rydych chi'n gynnig ledled y sir.

Rydym yn trefnu Taith Cludiant Cymunedol yng Ngheredigion. Bydd y Daith yn cychwyn yn Aberteifi, lle byddwn yn lawnsio'r wefan newydd, Cludiant Cymunedol Ceredigion; y Gronfa Data Gyrwyr Gwirfoddol a chofrestr Bachu Bws. Bydd y digwyddiad yn Llanbedr Pont Steffan ar y 4ydd Ebrill yn Swyddfa CAVO gan ddechrau am 10.30yb. Estynnaf wahoddiad i chi, fel un o'n grwpiau Cludiant Cymunedol i arddangos eich cerbydau a gosod stondin yn arddangosfa Taith Cludiant Cymunedol.

Cysylltwch â Rod, Sioned neu fi i fwcio stondin arddangos, roi gwybod os byddwch yn arddangos cerbyd ac i gadw lle i chi a/neu gynrychiolwr/wyr

Cofion gorau

*Enid Heneghan* Cydlynydd Cludiant Cymunedol CMGC

**YSWIRIANT FUW**

**Yswiriant Fferm, Busnesau, Ceir a Thai**

FUW
UNDEB AMAETHWYR CYMRU

*Arbenigedd lleol*
*Polisïau at bopeth*
*Prisiau cystadleuol*

Dewch i drafod eich anghenion gyda

**Alan Jacob** 07968 371823 / 01570 481361
neu
**Gwion James** 07980 608337 / 01570 480623

Yn swyddfa **Yswiriant FUW, Sgwar y Mart, Llanybydder**

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol, yng nghyd-destun cyfryngu yswiriant, o dan Rhif Cofrestru 308935

**PLANHIGFA GRANNELL NURSERY**

Capel y Groes,
Llanwnnen
SA48 7LE
01570 434548
www.grannell-nursery.co.uk

**Planhigion llysiau, lluosflwydd, blodau'r haf a'r gaeaf, perlysiau, coed ffrwythau a mwy!**

Dydd Mawrth i Ddydd Sadwrn
10yb ~ 5yp
Dydd Sul 10yb ~ 4yp
Ar gau Dydd Llun heblaw Gŵyl y Banc

Llanybydder a Llanbedr Pont Steffan
2013
**Taith dros Fywyd**
Dechrau: 10.30yb Gyferbyn ag Ysgol Cwmann

**Sefydliad Arenau Cymru**
**Dydd Sul 24ain Mawrth**
10.30yb gyferbyn ag Ysgol Cwmann

Taith hawdd drwy Barcyrhos, neu daith mwy heriol o dair milltir.

Trefnydd: Philip Lodwick
01570 422181

**Cyngerdd Adloniant**
Yng Nghwmni
Aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc
CWMANN

**MAWRTH 14eg 2013**
**7:30 y.h.**

**Neuadd St Iago Cwmann**

Llywydd: Delyth Jones, Y Pantri
Tâl mynediad:
Oedolion - £5
Plant Uwchradd - £2:50
Plant Cynradd – AM DDIM

**Cinio Dathlu Pen-blwydd**
Cangen Merched y Wawr
Llanbedr Pont Steffan a'r Cylch
**yn ddeugain oed**

**yng Ngwesty Tyglyn Aeron**
**ar Fehefin 10fed 2013**
am 7:30y.h.

Croeso cynnes i gyn-aelodau.
Enw a blaendal o £10 erbyn Mai 10fed i Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen, Cwmann, Llanbedr Pont Steffan.
SA48 8EJ.
01570 422922.

# Cwmann

**Pwyllgor Carnifal**

Bydd cyfarfod Pwyllgor y Carnifal a'r Mabolgampau yn cael ei gynnal Nos Fawrth, Mawrth 12fed yng Nghanolfan y pentref am 7.30yh. Siomedig iawn oedd y presenoldeb yn y cyfarfod y mis diwethaf. Dewch i gefnogi'r pentref wrth baratoi tuag at un o brif weithgareddau'r flwyddyn. Mae angen eich cymorth!

**CFfI Cwmann**

Llongyfarchiadau mawr i aelodau'r clwb ar eu perfformiad yng Nghystadleuaeth Ddrama'r sir. Diolch yn fawr hefyd i'r holl arweinyddion a'r rhieni am eu cymorth a'u harweiniad yn ystod yr ymarferion.

Mis o ddathlu sydd o'n blaenau y mis hwn gyda chyngerdd gan aelodau'r Clwb ar y 14eg o fis Mawrth yn dathlu doniau'r aelodau. Croeso i bawb!

**Sefydliad y Merched Cwmann**

Croesawodd Ann Lewis, y Llywydd, bawb i gyfarfod mis Chwefror. Cydymdeimlodd â Glesni ar golli eu mam ac hefyd â theulu Gwennie Douch a oedd yn gyn-aelod. Llongyfarchodd Bethan ar ddod yn fam-gu. Estynnodd groeso i'n gwraig wadd am y noson sef Mrs Gail Evans o Dregaron, gwraig fferm ac un sy'n flaenllaw gyda Sefydliad y Merched Ceredigion. Roedd hi wedi dod â'i chwaer Mima i'w chynorthwyo a cafwyd ganddynt arddangosfa ddiddorol ar fwyd Eidalaidd. Diolchodd Helena Gregson i Gail a Mima am ddod i'n diddori. Ar ôl blasu'r bwyd a chael cwpaned, cafwyd trafodaeth fyr am fusnes y Gangen a darllenwyd y llythyrmisol. Derbyniwyd llythyr oddi wrth Henoed Cwmann yn diolch am y te a ddarparwyd iddynt. Darllenwyd llythyr oddi wrth Sefydliad Clefyd Parkinsons yn diolch am y rhodd, a llythyr gan Glesni yn diolch am y cydymdeimlad a estynnwyd iddi.

Cyhoeddwyd fod £100 o elw'r Noson 'Dominos' wedi ei gyflwyno i'r Ysgol Feithrin.

Enillwyd y raffl gan Mary Davies.

**Cydymdeimlo**

Estynnwn gydymdeimlad dwysaf â theuluoedd Mr Edwin Evans, Brynderw, Parcyrhos a fu farw yn ddisymwth.

Yr un modd â Joan Davies a'r teulu, 38 Heol Hathren ar farwolaeth ei brawd yn Lerpwl. Hefyd Mr Evan Jones, Trefin a'r teulu ar farwolaeth ei briod, Dilys Jones.

**Dyweddïo**

Llongyfarchiadau i Dr Sara Jones, Penrheol sydd wedi dyweddïo â Gails Van Rees o Lanwrtyd.



Rhai o ferched Ysgol Carreghirfaen yn dathlu Gŵyl eu Nawdd Sant.



Drama CFfI Cwmann

Hefyd, Caryl Coles, 10 Treherbert sydd wedi dyweddïo â Trystan o Dregaron. Pob dymuniad da iddynt i'r dyfodol.

**Cartref Newydd**

Pob hwyl i Carwyn Gregson a Lowri Wilson yn eu cartref newydd yn Gwynfryn.

**Diolch**

Dymuna teulu y diweddar Mrs Gwennie Douch, Glynceri ddiolch o galon am bob cydymdeimlad mewn gair a gweithred yn ystod eu profedigaeth lem ac annisgwyl o golli un a oedd mor annwyl iddynt. Diolch hefyd i bawb a gyfrannodd at Ymchwil Cancr er cof am Gwennie.

**Clwb 225**

1. Mrs Margaret Jones, Glanhelen, Llambed, 210; 2. Seren Ling, Glynbedw, Cwmann, 104; 3. Mrs Carol Doughty, Caris, Cwmann, 38; 4. Eleri Davies, 13 Heol Hathren, Cwmann, 207; 5. Mrs Ann Lewis, Hillside, Cwmann, 132; 6. Mr & Mrs Andrew Jones, Glanhathren, Cwmann, 193; 7. Evan a Lois Williams, Bronallt, Llangadog, 60; 8. Mrs Lena Williams, 39 Heol Hathren, Cwmann, 72; 9. Aneurin Jones, Hathren, Cwmann, 142; 10. Alun Williams, d/o Brynywawr, Cwmann, 95.

**Clwb 125 – Neuadd Sant Iago**

1. Mr Elgan Jones, Coedmore Hall, Cwmann, 77; 2. Mrs Lena Williams, 39 Heol Hathren, Cwmann, 22; Mr Williams, Brynmeurydd, Parcyrhos, Cwmann, 118; 4. Mrs Elizabeth Warmington, Falkland, Bryn Road, Llambed, 85; 5. Mr Edwin Harries, 8 Nant-y-Glyn, Cwmann, 111; 6. Mrs Eileen Morgan, Haulfryn, Cwmann, 125; 7. Mrs Gwen Jones, Derimôr, Cwmann, 13; 8. Mrs Andrea Lewis, 39 Heol Hathren, Cwmann, 148; 9. Miss Angharad Price, Brynderi, Cwmann, 33.

**COMPASS OFFICE SUPPLIES**

Am eich holl ddeunydd swyddfa

Uned 19, Stâd Ddiwydiannol Llambed, Heol Tregaron, Llambed.

☎ 01570 422955
🖷 01570 422232

# Cwrtnewydd

**Amaethwyr Da**

Llongyfarchiadau i Paul a Bessie Williams, Clyncoch ar ennill nifer o gwpannau yng Nghystadleuaeth Fuches Ceredigion 2012. Dyma'r cystadlaethau meant wedi ennill : Arolwg Fuches Gyfan; Arolwg Grŵp Hiliogaeth Teirw; Llo Heffer gorau a Fagwyd ar yr Aelwyd; Heffer a Fagwyd ar yr Aelwyd gyda'r pwyntiau uchaf ac arolygaeth; Stoc Ifanc Benyw Orau a Gwerth Oes Uchaf. Da iawn chi.

**Mabolgampau Cwrtnewydd**



Yn ystod mis Chwefror cynhaliwyd Bingo yn neuadd Ysgol Cwrtnewydd gan Bwyllgor Mabolgampau Cwrtnewydd. Braf oedd gweld y neuadd yn orlawn. Cawsom noson ddifyr iawn. Fel yr arfer yn y Bingo blynyddol fe wnaeth y pwyllgor drosglwyddo arian i nifer o sefydliadau yn yr ardal. Yn y llun gwelir Mrs Wendy Davies Cadeiryddes y pwyllgor yn trosglwyddo arian i Mrs Hannah Thomas o Ysgol Cwrtnewydd, Miss Heddwen Davies ar ran Ysgol Feithrin Drefach, Mrs Mary Jones o Gymdeithas Hŷn Llanwenog a Mrs Carol Rees o Gylch Ti a Fi Cwrtnewydd.

**Gwellhad Buan**

Gwellhad buan i Walter Harries, Clarence ar gael triniaeth ar ei lygad ac hefyd i Gareth Lloyd sydd wedi bod yn Ysbyty Glangwili yn ddiweddar.

**Ysgol Cwrtnewydd**

Mis bach prysur ym mywyd Ysgol Cwrtnewydd. Cynhaliwyd bingo yn neuadd yr ysgol gyda phwyllgor mabolgampau pentref Cwrtnewydd a braf oedd gweld y lle yn orlawn, a phawb wedi joio. Trosglwyddodd y pwyllgor siec am ddefnydd o'r ysgol a'i chae i gronfa'r ysgol. Diolchwyd iddynt gan Miss Heddwen Davies y Pennaeth.

Ar ôl gwyliau hanner tymor hedfanodd Mrs Gwyneth Davies a Mrs Carol Bundock allan i Murcia yn Sbaen i ymweld â phartneriaid ein gwledydd sef Iwerddon, Ffrainc a Sbaen. Cafodd y ddwy gyfle i weld nifer o ysgolion a braf oedd gweld gwaith plant ein hysgol ni yn cael ei arddangos yno. Disgwyliwn ymlaen yn awr i gyfathrebu gyda'n gilydd drwy skype.




Aeth plant blwyddyn 3, 4, 5 a 6 i Lambed am ddiwrnod o sgiliau a thwrnament hoci. Cafodd y plant lawer o hwyl yn cymdeithasu gydag ysgolion yr ardal ac yn datblygu sgiliau hoci gwych. Braf oedd gweld disgyblion Ysgol Llanwnnen yn ennill y twrnament a disgyblion Ysgol Cwrtnewydd yn ail. Bydd y ddwy ysgol yn cynrychioli cylch Llanbed yn y rownd nesaf. Llongyfarchiadau i chi gyd! Diolch yn fawr i Mrs Sirian Davies a Mrs Wendy Davies am eu hyfforddi.

Bu Elin Davies yn cystadlu yn ail rownd y Cogurdd yn adran Dechnoleg Bwyd Ysgol Bro Pedr. Roedd yna ugain o gogyddion yno yn paratoi pecynnau bwyd iachus. Llongyfarchiadau mawr i Elin am gipio'r wobr gyntaf. Bydd Elin yn cynrychioli Ceredigion yn y rownd nesaf. Pob lwc i ti Elin fach!

Roedd holl blant yr ysgol yn brysur yn cystadlu yng nghystadlaethau Chelf a Chrefft yr Urdd.

Cafwyd ymweliad â'r ysgol gan aelod o staff Techniquest; bu plant y Cyfnod Sylfaen yn cymryd rhan mewn Parti Mathemateg a hefyd cafodd plant blwyddyn 3 a 4 o Ysgol Llanwnnen, Llanwenog a Chwrtnewydd gyfle i arbrofi â gweithgareddau trydan.

**Canlyniadau Clwb 100**

Ionawr 2013: 1af – Betty Jones, Delfan, Cwmsychbant; 2il – Dorian Rees, Maesllwyd, Cwmsychbant; 3ydd – James Thomas, Hengoed, Cwrtnewydd; 4ydd – Jac Evans, Oakford. Chwefror 2013: 1af – Ffion Williams, Brynhaul, Maesycrugiau; 2il – Katy Moyes, Hen Cwm Mawr, Cwrtnewydd; 3ydd – Chris & Rachel Schröder, Blaencwrt; 4ydd – Ifan Jones, Llys Ceri, Cwmcou. Mawrth 2013: 1af – Eileen Davies, Neuadd Isaf, Prengwyn; 2il – Mansel Jones, Brynhelyg, Pennant; 3ydd – Mags Richards, Llain, Rhydlewis; 4ydd – Christine Smith, Brynseion, Cwrtnewydd.


Gweithdy Llechi Cymreig, Enwau Tai, Dillad, Llyfrau, Cds, Dvds, Anrhegion, Oriel a Gwasanaeth fframio lluniau ayb
Sianti
Uned 2 Monumental Works, Stryd y Fro, Aberaeron
gyferbyn a Banc y Natwest
01545 571510
www.sianti.org

Toriad Taclus
Heol Caerfyrddin
Llanybydder
Sir Gaerfyrddin
Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

Ruth Thomas a'i Chwmni
Cyfreithwyr
Adeiladau'r Llywodraeth, Heol Pontfaen, Llambed
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk
yn cynnig pob gwasanaeth cyfreithiol
*Apwyntiadau hwyr neu yn eich cartref*

Ymgynghorwyr Yswiriant
*Eryl Jones Cyf*
Beth am gysylltu â ni am amcan-bris i'ch holl anghenion yswiriant?
Car, lori, fan, beic modur
Yswiriant tŷ/cynnwys
Teithio
Fferm a busnes
Cyfrifoldeb
Anifeiliaid
Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant, cyngor a chefnogaeth yn rhad
Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA
Ffôn: 01570 422401
Ffacs: 01570 422562
Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

FISHERS ARMS
Bwyd cartref ardderchog nos Iau, Gwener a Sadwrn, Prydiau mewn basged ar gael bob nos.
Cwrw traddodiadol. Croeso i awyrgylch Gymreig gan Berian a Beverley Wilkins a'u merched.
Cellan, Llambed
01570 422895

**C.Ff.I SIR GAERFYRDDIN**

Cynhaliwyd Cystadlaethau Dramâu Cymraeg a Saesneg C.Ff.I Sir Gâr yn Neuadd San Pedr yn ddiweddar. Bu pedair noson o gystadlu brwd gyda 2 glwb yn cystadlu yn y Ddrama Saesneg a 9 clwb yn yr adran Gymraeg.

Enillwyr yr adran Saesneg oedd C.Ff.I Llanfynydd gyda'u Drama 'Waiting for Gordon'.

C.Ff.I Dyffryn Cothi ddaeth i'r brig yn yr adran Gymraeg â'u perfformiad o 'Brecwast Hwyr', gyda C.Ff.I Cynwyl Elfed a C.Ff.I Penybont yn gydradd ail. Llongyfarchiadau mawr i'r clybiau oll am berfformiadau gwych.

Fe aeth y gwobrau am yr unigolion gorau yn yr adran Gymraeg & Saesneg i'r canlynol :- 18 oed ac iau Merch –Heledd Roberts, C.Ff.I Llangadog; Bachgen- Owain Davies, C.Ff.I Llanllwni. 26 oed ac iau Merch – Buddug James, C.Ff.I Penybont; Bachgen – Aled Jones, C.Ff.I Dyffryn Cothi. Cynhyrchwyr gorau - Gareth Iwan Jones, Helen Evans a Helen Davies, C.Ff.I Cynwyl Elfed.

Nos Iau 14eg o Chwefror, cynhaliwyd cystadleuaeth newydd sef Amser i Serennu. Roedd gan gystadleuwyr 6 munud i wneud unrhyw beth a fynnent ar y llwyfan. Yn fuddugol yn y gystadleuaeth yma roedd C.Ff.I Llanymddyfri (glas) gyda'u perfformiad o 'Bring Him Home', yn ail oedd C.Ff.I Llanymddyfri (gwyn) a oedd yn perfformio 'Synchronized Swimming' ac yn drydydd oedd Anwen Jones, C.Ff.I Llandeilo gyda'i hadroddiad digri.

Rydym yn ddiolchgar iawn i'n beirniaid am yr wythnos sef y Parchedig Tom Defis, beirniad y dramâu, a Mr Nigel Owens, beirniad Amser i Serennu.

Diolch hefyd i bawb fuodd yn cynorthwyo yn ystod yr wythnos a diolch arbennig i Siôn Page, Huw Jones a Nerys Jones a fu'n gweithio'n ddiwyd wrth y Golau a'r Sain.

Hefyd, ar Nos Iau 14eg Chwefror, cyhoeddwyd Aelod Iau a Hŷn newydd C.Ff.I Sir Gâr am y flwyddyn nesaf. Carys Thomas, o Glwb San Ishmael, wnaeth dderbyn yr anrhydedd o fod yn Aelod Hŷn C.Ff.I Sir Gâr am 2013/14. Ifor Jones, High View, Llanllwni ac aelod o Glwb Llanllwni hawliodd deitl Aelod Iau y Sir am 2013/14.

Yn ystod y mis diwethaf, mae Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg C.Ff.I Sir Gâr wedi bod yn cael ei chynnal gyda'r adrannau gwahanol yn cystadlu ar nosweithiau a phenwythnosau gwahanol.

Cynhaliwyd y gystadleuaeth Ddarllen i aelodau dan 14 oed ddydd Sadwrn, Chwefror 23ain yn Ysgol Gynradd Nantgaredig. Yn fuddugol yn yr adran ddarllen ac yn ennill cwpan arian oedd Betsan Jones, Rhian Davies a Luned Jones o Glwb Llanllwni. Sioned Howells, Mared Phillips a Siriol Howells, eto o G.Ff.I Llanllwni oedd yn 2ail a Non Morgan, Fflur Richards a Caitlyn Davies, C.Ff.I Llangadog oedd yn 3ydd.

Cyflwynwyd cwpan arian i Betsan Jones, C.Ff.I Llanllwni fel unigolyn gorau'r gystadleuaeth.

Fe fydd Betsan Jones (Llanllwni), Non Morgan (Llangadog) a Sioned Howells (Llanllwni) yn cael y cyfle i fynd ymlaen i gynrychioli'r Sir yng nghystadlaethau lefel Cymru ddiwedd mis Mawrth.

Cynhaliwyd Siarad Cyhoeddus yr Adran Iau ddydd Sadwrn, Ionawr 26ain yn Ysgol Gynradd Nantgaredig. Yn 1af yn yr adran Iau ac yn ennill Cwpan Teulu Pantyffynnon oedd Teleri James, Llifon Davies a Fiona Phillips, C.Ff.I Penybont. Yn 2ail oedd Ifor Jones, Betsan Jones a Sioned Howells, C.Ff.I Llanllwni ac yn 3ydd oedd Nia Eyre, Menna Williams a Rhys Jones, C.Ff.I Llanfynydd.

Cyflwynwyd Cwpan Teulu Ffosyffin i Menna Williams, C.Ff.I Llanfynydd fel unigolyn gorau'r gystadleuaeth.

Menna Williams (Llanfynydd), Dafydd Evans (San Ishmael) a Iolo Roberts (Llangadog) fydd yn cynrychioli'r Sir yng nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus adran Iau lefel Cymru ym mis Mawrth.

Bu 6 thîm yn cystadlu yn yr Adran Ganol nos Lun, Ionawr 28ain yn Ysgol Gynradd Nantgaredig. Yn ennill cwpan Alun James yn yr adran ganol eleni roedd Ifan Phillips, Ynyr James, Elliw James a Hanna Thomas, C.Ff.I Capel Iwan. Yn yr ail safle roedd Tîm Penybont, sef Mared Evans, Elen Jones, Swyn Davies ac Indeg Jameson ac yn 3ydd roedd C.Ff.I Llanfynydd, sef Catrin Anna, Ffion Rees, Lowri Rees ac Elen Davies.

Cyflwynwyd Tarian Emyr Williams i'r unigolyn gorau yn yr adran ganol, sef Elliw James, C.Ff.I Capel Iwan.

Fe fydd Mared Evans (Penybont), Elliw James (Capel Iwan), Iestyn Owen (Capel Dewi) a Lowri Rees (Llanfynydd) yn cynrychioli'r Sir yng nghystadleuaeth Cymru ym mis Mawrth.

Gan bod 12 tîm yn cystadlu yn yr Adran Hŷn, cynhaliwyd y gystadleuaeth nos Iau, Chwefror 21ain a dydd Sadwrn, Chwefror 23ain. Cyflwynwyd cwpan y diweddar Henadur S.O. Thomas i'r buddugwyr sef Rhian Roberts, Lowri Thomas a Bethan Davies, C.Ff.I Llanddarog. C.Ff.I Dyffryn Cothi ddaeth yn ail, sef Aled Jones, Bethan Griffiths a Gwennan Evans ac yn gydradd 3ydd roedd Iestyn Owen, Eleri Jenkins ac Angharad Evans, C.Ff.I Capel Dewi a Sioned Dyer, Ffion Jones a Mared Tomos o dîm y Swyddfa.

Rhannwyd Cwpan Pat Davies am y perfformiad gorau yn yr adran rhwng Lowri Thomas a Rhian Roberts - y ddwy o G.Ff.I Llanddarog.

Yr unigolion fydd yn cynrychioli'r Sir yng nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg Adran Hŷn ar lefel Cymru fydd Lowri Thomas (Llanddarog), Rhian Roberts (Llanddarog), Bethan Davies (Llanddarog), Bethan Griffiths (Dyffryn Cothi) ac Angharad Evans (Capel Dewi).

Diolch yn fawr iawn i'r beirniaid, sef Steffan Griffiths, Eifion Morgans, Iola Wyn, a Mansel Charles am eu gwaith caled ac i Ysgol Nantgaredig am leoliad mor addas ar gyfer y gystadleuaeth.

**CFfI CEREDIGION**

Mae mis Chwefror wastad yn golygu adloniant i'n clybiau ni a braf oedd gweld 14 o glybiau yn cystadlu yn y gystadleuaeth ddrama. Y beirniad oedd Ffion Wyn Bowen a chafodd hi dasg a hanner i feirniadu'r 14 ddrama arbennig. Y canlyniadau terfynol oedd Llanddewi Brefi yn 1af, Caerwedros yn 2il a Felin-fach yn 3ydd. Carwyn Hawkins, Felin-fach a gipiodd wobr yr actor gorau o dan 16 a Miriam Davies, Trisant yr actores orau o dan 16. Yn Llanddewi Brefi roedd yr actorion gorau o dan 26, sef Iwan Davies a Catrin Medi Pugh. Aeth y sgript orau i Gareth Ioan, Caerwedros, y set orau a'r perfformiad technegol gorau i Felin-fach a'r cynhyrchydd gorau i Landdewi Brefi. Yn ystod yr wythnos cafodd cystadleuaeth Amser i Serennu ei chynnal hefyd gydag Aeron Pughe yn beirniadu, a dyma'r canlyniadau: Llanwenog 1af, Llanddeiniol 2il a Pontsian 3ydd.

Canlyniad arall yr wythnos oedd dewis Aelod Hŷn a Iau newydd i'r Sir. Llongyfarchiadau mawr i Gwennan Davies, Llanwenog am ddod yn Aelod Hŷn y sir ac i Carwyn Davies, Llanwenog am ddod yn Aelod Iau'r sir, gyda Gwawr Hatcher, Llanwenog yn 2il ac Elen Davies, Pontsian yn 3ydd. Pob lwc i'r ddau ohonynt yn eu swyddi newydd.

Canlyniadau Clwb 200 Rhagfyr: 1af - Clwb Felinfach; 2il - Clwb Llanddewi Brefi; 3ydd - Dai a Gwen, Davies, Gwarffynnon. Ionawr: 1af - Dai a Gwen Davies, Gwarffynnon; 2il -Heather Price, Esgereinon, Llanybydder; 3ydd - Gareth a Sulwen Lloyd, Ucheldir, Cwrtnewydd.

Dyddiadau i'ch dyddiadur - Dawns Dewis Swyddogion yn Tyglyn ar yr 8fed o Fawrth gyda Paul Dark yn diddanu. Bydd Cymanfa'r Frenhines a Ffermwr Ifanc yn cael ei chynnal yng Nghapel Glynarthen ar y 10fed o Fawrth am 7.30pm gyda mynediad drwy raglen £4. Croeso cynnes i bawb, felly cysylltwch gyda swyddog neu aelod o'r CFfI am raglen.

Ddydd Sul y 24ain o Chwefror ar Gampws Theatr Felin-fach cynhaliwyd diwrnod llawn dop o gystadlu yn y Siarad Cyhoeddus Cymraeg gyda phymtheg clwb yn cael eu cynrychioli. Llongyfarchiadau i GFfI Llanwenog am ennill tarian Brynhogfaen am y clwb gorau dros y bedair adran ac i GFfI Pontsian am ddod yn ail. Diolch i'r beirniaid Dan 26 - Mr Owain Jones, Dan 21 - Mr Dai Baker, Dan 16 - Mr Hefin Jones a Dan 14 - Mrs Edna Davies. Dyma ganlyniadau'r diwrnod: Cadeirydd Dan 14 oed - 1af Iwan Evans, Llanwenog; 2il Nest Jenkins, Lledrod; 3ydd Lleucu Ifans, Dihewyd, Martha Dafydd, Llangeitho, Carwyn Hawkins, Felin-fach. Darllenydd - 1af Nest Jenkins, Lledrod; 2il Iwan Evans, Llanwenog ac Alwen Morris, Llangwyryfon. Tîm Dan 14 oed - 1af Llanwenog A; 2il Lledrod A; 3ydd Llangwyryfon A. Cadeirydd Dan 16 oed - 1af Lauren Jones, Llanwenog A; 2il Meinir Davies, Llanwenog B; 3ydd Catrin Davies, Pontsian. Siaradwr - 1af Sioned Fflur Evans, Llanwenog B; 2il Gwenyth Richards, Pontsian ac Aron Dafydd Bro'r Dderi. Diolchydd - 1af Meleri Davies, Llanwenog B; 2il Sophie Jones, Llanwenog A; 3ydd Nest Jenkins, Lledrod A ac Ifan Davies, Caerwedros. Tîm - 1af Llanwenog B; 2il Llanwenog A; 3ydd Bro'r Dderi a Phontsian B. Cadeirydd Dan 21 oed - 1af Sioned Davies, Llanwenog; 2il Meira Lloyd, Llangeitho; 3ydd Carwyn Jones, Mydroilyn. Siaradwr - 1af Sioned Hatcher, Llanwenog; 2il Elin Haf Jones, Llanwenog; 3ydd Meirian Morgan, Llangeitho. Tîm - 1af Llanwenog, 2il Pontsian, 3ydd Llangeitho. Dan 26 oed Cadeirydd - 1af Einir Ryder, Pontsian A; 2il Elin Dafydd, Troedyraur; 3ydd Lowri Haf Davies, Llanwenog B. Siaradwr - 1af Gethin Richards, Pontsian A; 2il Lowri Davies, Troedyraur a Luned Mair, Llanwenog A.

Cynhaliwyd cystadleuaeth 'Ymgeisio am Swydd' hefyd a'r canlyniadau oedd 1af - Catrin Reynolds, Troedyraur; 2il Rhodri Organ, Troedyraur; 3ydd Hannah Rowcliffe, Pontsian. Llongyfarchiadau ichi gyd a phob dymuniad da i'r buddugwyr a fydd yn cynrychioli Ceredigion yn Llanelwedd ar y 23ain o fi Mawrth.

# CENTRAL GARAGE

GORSAF BETROL CYFYNGEDIG
Pentrebach, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7JR

NAWR AR AGOR YN LLAWN

7yb - 9yh Dydd Llun i Ddydd Sadwrn

9yb - 9yh Dydd Sul

**TANWYDD** - Derbynnir Cardiau Tanwydd

**SIOP** - Papurau Newyddion
Siop Drwyddedig
Glo, Nwy, Coed Tân

**SWYDDFA BOST LEOL**
7yb - 9yh Dydd Llun - Dydd Sadwrn
9yb - 9yh Dydd Sul

**GOLCHFA GEIR**

Croeso cynnes i bawb




Cymwynaswyr y flwyddyn Ysgol Cwrtnewydd Elin Davies ac Osian Jones.
Newyddion Cwrtnewydd ar dudalen 7.


"Y gwyliau rydych wedi'u gohirio ers blynyddoedd"
Peidiwch ag oedi rhagor!

**Patagonia :::: Gwlad y Cewri**

**Pobl - Tir - Iaith - Hanes - Traddodiad**
**Dathlu - Difyrrwch**

Y trefnwyr mwyaf profiadol - yr unig rai sydd â'u gwreiddiau yn ddwfn yn y Wladfa.
Am fanylion pellach, cysylltwch ag Elvey MacDonald, Haulfan, Maes Carrog, Llanrhystud, Ceredigion. SY23 5AL
01974 202052 e-bost: elveymac1@btinternet.com





# Drefach a Llanwenog

**Y Gymdeithas Hŷn**

Oherwydd diffyg yn system wresogi Eglwys Llanwenog, bu'n rhaid symud y cyfarfod i Festri Bethel Drefach. Croesawyd pawb gan Dilwen George, y Cadeirydd; roedd 25 yn bresennol.

Dymunwyd gwellhad buan i Dan Jones, Bronwen Jones a Ray Evans, y tri ohonynt wedi treulio peth amser mewn ysbyty. Llongyfarchwyd Eirwen Evans ar ddod yn hen fam-gu, a dymunwyd pen-blwydd hapus hwyr i Eifion Davies, ac i Beryl Lewin a Dai Davies, Llanfôn a fyddant yn dathlu cyn diwedd y mis, un sbesial i Dai!

Derbyniwyd siec am £100 eleni eto i goffrau'r Gymdeithas gan Bwyllgor Mabolgampau Cwrtnewydd. Diolchwyd yn fawr iddynt gan y Cadeirydd.

Pleser gan y Cadeirydd oedd cael croesawu Margaret Griffiths, Crugywhil atom. Rhoddodd Dilwen fraslun o hanes Margaret - ei geni yn Llundain, derbyn gradd mewn Geneteg ym Mhrifysgol Aberystwyth, priodi John a chael 3 o blant. Yna, bu'n byw yn yr Alban ac yn Llundain am gyfnodau cyn dychwelyd i Ffwrneithyn, hen gartref y teulu, ac yna symud yn 1985 i Crugywhil.

Mae Margaret wedi teithio llawer yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac roedd wedi dewis dangos lluniau a siarad am ei thaith i Borneo y llynedd. Roedd yn uchelgais ganddi weld Hen Ŵr y Coed (orang-outang), crwbanod mawr y môr, ac wrth gwrs, cael cwrdd â'r brodorion hefyd. Doedd hi ddim am aros mewn gwestai crand, ond yn hytrach gyda'r brodorion yn eu tai hirion gyda chymaint â 25 o deuluoedd yn perthyn ac yn byw gyda'i gilydd, a chael cyfle i rannu'r bwydydd roedden nhw'n eu bwyta.

Gwelwyd y grŵp yn mynd drwy'r goedwig drofannol, yn dringo Mynydd Kinabalu, tair gwaith uchder Yr Wyddfa, ac yn aros ar y mynydd dros nos. Gwelsom hefyd luniau o'r crwbanod ar y traeth, yn dodwy dros gant o wyau cyn dychwelyd i'r môr.

Diolchwyd i Margaret am brynhawn diddorol gan Eifion Davies, gan edmygu ei phlwc yn ymgymryd â theithiau o'r fath.

Gwragedd Eglwys Llanwenog oedd wedi paratoi'r lluniaeth, a diolchwyd iddynt gan Beryl Lewin. Ar ran yr Eglwys, rhoddodd Viria Jones ddiolch i aelodau Capel Bethel am gael defnyddio'r festri ar fyr rybudd.

Bydd y cyfarfod nesaf dydd Mercher, Mawrth 13eg 1.30 yp yn Ysgol Cwrtnewydd, a'r plant yn rhoi adloniant.

**Aelod Hŷn CFf I Ceredigion**

Daeth llwyddiant i ran Gwennan Davies, Llys-deri ac aelod o Glwb Llanwenog pan gafodd ei hethol yn Aelod Hŷn Ceredigion yn ddiweddar. Pob dymuniad da i ti i'r dyfodol.

**Siarad Cyhoeddus**

Llongyfarchiadau i Sioned Hatcher, Abernant ar ennill siaradwraig orau dan 21 oed yng nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg yn ddiweddar. Pob lwc i ti ar lefel Cymru.

**C.Ff.I Llanwenog**

Bu 7 aelod o'r clwb yn brysur iawn yn ymarfer ar gyfer cystadleuaeth y ddrama yn ddiweddar. 'Yr Iach yn y Bore' oedd enw'r ddrama a gafodd ei haddasu gan Linda Jones. Diolch i Linda hefyd am gynhyrchu'r ddrama. Cafwyd tipyn o sbort wrth ymarfer, a pherfformiwyd y ddrama gyda graen fel arfer.

Cynhaliwyd cyngerdd yn Theatr Felin-fach i berfformio'r ddrama i ffrindiau'r clwb. Rhoddwyd gwahoddiad hefyd i C.Ff.I Llanllwni a diolch iddynt am ymuno â ni a pherfformio eu drama nhw. Arweiniwyd y noson gan un o aelodau brwdfrydig y clwb sef Carwyn Davies. Llywydd y noson oedd Mrs Marian Morgan a diolch iddi am araith bwrpasol a'i rhodd hael.

Llongyfarchiadau mawr i Gwennan Davies am ennill cystadleuaeth Aelod Hŷn y flwyddyn ac i Carwyn Davies am ennill yr Aelod Iau.

Llongyfarchiadau i griw o'r clwb am ddod yn 1af yn y gystadleuaeth 'Amser i Serennu' yn ddiweddar a phob lwc iddynt wrth gynrychioli Ceredigion yn y penwythnos dramâu yn Theatr y Grand, Abertawe.

Y siarad cyhoeddus Cymraeg oedd y gystadleuaeth nesaf a chafodd y clwb cryn lwyddiant.

Dyma'r canlyniadau: Dan 14: Cadeirydd: 1af Iwan Evans; Darllenydd: 2ail Iwan Evans; Tîm: 1af Llanwenog A. Dan 16: Cadeirydd: 1af Lauren Jones; 2ail Meinir Davies; Siaradwr: 1af Sioned Fflur Evans; Diolchydd: 1af Meleri Davies; 2ail Sophie Jones. Tîm: 1af Llanwenog A; 2ail Llanwenog B. Dan 21: Cadeirydd: 1af Sioned Davies; Siaradwr: 1af Sioned Hatcher; 2ail Elin Haf Jones; Tîm: 1af Llanwenog. Dan 26: Cadeirydd: 3ydd Lowri Haf Davies; Siaradwr: 2ail Luned Mair; Tîm: 3ydd Llanwenog A. Clwb Buddugol: 1af Llanwenog- Tarian Brynhogfaen.

**Ysgol Llanwenog**

Bu'r plant yn brysur yn ystod yr wythnosau diwethaf yn paratoi ac yn gweithio ar gyfer eu prosiect Rhyngwladol. Mae'r ysgol, yn ogystal ag Ysgol Cwrtnewydd , yn rhan o brosiect Comeniws, sef cyfle i gydweithio gydag ysgolion eraill o wledydd Ewrop. Mae ysgolion o Sbaen, Ffrainc ac Iwerddon yn rhan o'r un cynllun. Bu'r plant yn creu modelau o ddefnyddiau sydd fel arfer yn cael eu hailgylchu. Cawsant dipyn o hwyl wrth fynd ati a chrewyd campweithiau amrywiol a diddorol iawn. Buont hefyd yn llunio cwestiynau ar ffurf y cwis Who Wants to be a Millionaire er mwyn i blant y gwledydd cysylltiedig ddysgu a gwella eu gwybodaeth am Gymru. Bu aelodau dosbarth y Cyfnod Sylfaen hefyd yn trin a thrafod rhai gwledydd eraill o gwmpas y byd a dysgu sut maen nhw'n wahanol i ni. Teithiodd aelodau o staff Ysgol Llanwenog a Chwrtnewydd i Sbaen yn ddiweddar er mwyn ymweld â'r ysgol ac i ddysgu am y system addysg yno. Cawsant groeso bendigedig.

Bu aelodau o gwmni 'Bible Explorer' yn yr ysgol yn trin a thrafod Yr Hen Destament gyda'r plant. Bydd amryw o'r sesiynau yma yn dilyn beth mae'r plant yn ei ddysgu am hanesion y Beibl mewn ffyrdd gweledol a hwyliog.

Aeth plant yr adran Iau i Ysgol Cwrtnewydd i glywed Mr Tom Defis o asiantaeth Cymorth Cristnogol yn trafod pwysigrwydd gwaith y mudiad. Roedd hwn yn sylfaen i waith Addysg Grefyddol a Daearyddiaeth y tymor a drefnwyd gan Mrs Nerys Vobe. Mrs Vobe fydd yng ngofal y pynciau yma yn yr ysgol a chroeso mawr iddi fel rhan o staff yr ysgol.

Bu plant yr adran Iau mewn twrnament hoci yn Ysgol Bro Pedr. Cynhaliwyd y gystadleuaeth ar gae chwarae bob tywydd yn y Ganolfan Hamdden. Roedd yn ddiwrnod rhynllyd ond llwyddodd y plant i gadw'n gynnes trwy gymryd rhan yn y gemau a'r gweithgareddau amrywiol.

Mae'r disgyblion i gyd wedi bod yn brysur yn paratoi ar gyfer Eisteddfod yr Ysgol ac Eisteddfod yr Urdd. Bu'r plant hefyd yn brysur yn creu darluniau celf amrywiol ar gyfer y cystadlaethau Celf a Chrefft.

Cafodd disgyblion blynyddoedd tri a phedwar fore diddorol yn gwneud gweithgareddau technolegol dan ofal cwmni 'Techniquest'. Cawsant y cyfle i arbrofi ac i greu yn ystod y sesiwn.

Hoffai'r ysgol hefyd groesawu dau ddisgybl newydd sydd wedi dechrau yn ddiweddar yn y dosbarth derbyn, sef Joe Walker a Michaela Labram. Croeso cynnes a gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn Ysgol Llanwenog.

**Rhedeg Marathon**

Bydd Caron McKee Hands yn rhedeg Marathon Llundain ar yr 21ain o Ebrill ac yn codi arian at elusen Bobath – Canolfan Therapi Plant Cymru. Os ydych am gefnogi Caron a chyfrannu, ewch at http://uk.virginmoneygiving.com/fundraiser-web/fundraiser/showFundraiserProfilePage.action?userUrl=CaronMcKeeHands


Oes angen cyngor arnoch?
Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-


1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHAU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chwi gysylltu â ni.

ADVE
ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR
33 Stryd Fawr, Llambed
☏ 01570 422517 01570 423244

Carpedi

Gwyn Lewis
Cyf
Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel, Cladinau Wal, yn ogystal â Gwelyau, Pennau Gwelyau a Rygiau.
43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

Cegin Coedlannau
'Bwyd cartref ar gyfer pob achlysur'
* Cacennau pen-blwydd gyda llun (ffotograff)
* Bwffe mawr neu fach
* Danteithion i de
* Pwdinau
* Arlwyo ar gyfer pob achlysur

Sirian Davies, Coedlannau Fach, Cwrtnewydd,
01570 434 243
07815 962 045


REFLEXOLOGY
Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:
* Blinder / diffyg egni
* Meigryn
* Sciatica
* Irritable Bowel Syndrome
* Menstural problems
* a mwy
Os am ragor o wybodaeth cysylltwch â Carol Rees
01545 590164
07929 559561

Tim Jones

Ffotograffydd
Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan
☎ 01570 422644

# Cadwyn Cyfrinachau

Enw: **Rhys Lewis**
Oed: 20
Pentref: Cribyn
Gwaith: Peiriannydd
Partner: Dion - wejen
Teulu: Elfyn mochyn, Cath Bank, Angharad a Rhodri.



**Unrhyw hoff atgof plentyndod.**
Mynd lawr i Siop Felin-fach gyda bois Cribyn pan oeddwn 13-14 i brynu cylchgronau drwg.

**Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.**
Top Cat a Pumping Iron.

**Beth oedd y peth mwyaf ofnadwy wnest ti i gael row gan rywun?**
Gormod i restru ond y stŵr ges i gan dad am gael pwyntiau ar fy nhrwydded yrru sy'n sticio yn fy nghof i.

**Y peth mwyaf rhamantus a wnaeth rhywun i ti erioed?**
Sneb wedi gwneud llawer rhamantus i fi achos maen nhw'n gwybod gew nhw dim byd nôl.

**Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?**
Yn y gampfa gyda'r bois.

**Beth yw dy lysenw?**
Rhys leveeeeel.

**Taset ti'n fisged, pa fath fyddet ti a pham?**
"Rocky" achos rwy'n rock hard.

**Beth yw'r peth gorau am dy swydd bresennol?**
Gweithio gyda gang da o fois.

**Beth yw'r peth gwaethaf am dy swydd bresennol?**
Bennu gwaith yn drewi.

**Y peth gorau am yr ardal hon?**
Nosweithiau mas gyda'r bois.

**Y peth gwaethaf am yr ardal hon?**
Dim hanner digon o dalent.

**Pa mor wyrdd wyt ti?**
Dim o gwbwl.

**Pa iaith wyt ti'n defnyddio gyntaf?**
Cymraeg.

**Pa fath o ddeddf hoffet ti weld y Cynulliad yn ei phasio?**
Gostwng pris petrol a chwrw.

**Pa fath o berson sy'n mynd o dan dy groen?**
Pobol sydd yn byw ar gefn budd-daliadau.

**Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?**
Hala'r haf mas yn Ibiza gyda'r bois i gyd, all expenses paid.

**Beth sy'n codi ofn arnat?**
Rollercosters.

**Pryd chwydaist ti ddiwethaf?**
Ar ôl sesiwn gyda fy chwaer yn Tenerife. Codes i lan bore ar ôl 'ny yn y gawod.

**Ble oedd y lle mwyaf annisgwyl i ti ddihuno ynddo yn y bore?**
Mynedfa Banc Lloyds ar fore dydd Sul gyda Joni Cribyn.

**Am beth wyt ti'n breuddwydio?**
Ennill y loteri a symud i le twym.

**Pa gar wyt ti'n gyrru?**
Civic math r a Ford Sierra.

**Beth yw dy hoff adeilad?**
Stadiwm y Mileniwm.

**Gyda phwy fyddet ti'n hoffi bod yn sownd ar ynys anghysbell?**
Joni Cribyn, digon o brains gyda fe i adeiladu unrhyw beth i gael ni off yr ynys.

**Beth yw'r clud-fwyd o'th ddewis?**
Cyw iar a reis.

**Beth yw dy ddiod arferol?**
Dŵr neu Jack Daniels.

**Beth yw cynnwys dy oergell di?**
Llawer o gyw iâr a thiwna.

**Beth yw dy hoff arogl?**
Petrol neu borfa ffres.

**Sut wyt ti'n ymlacio?**
Ar y soffa o flaen y teledu.

**Pa wefan wyt ti'n ymweld â hi fwyaf aml?**
facebook a twitter.

**Sawl ffrind sydd gennyt ti ar facebook?**
1200.

**Hoff gân ar dy i-pod?**
Elvis. Suspicious minds.

**Pa raglenni sydd ar dy Sky+?**
Llawer o Simpsons a Family Guy.

**Pwy yw'r person enwocaf ar dy ffôn symudol?**
Joni Cribyn.

**Pa ran o dy gorff yw dy hoff ran?**
Breichiau.

**Heblaw'r teulu, beth fyddet ti'n achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?**
Ffôn symudol.

**Beth sy'n rhoi ysbrydoliaeth i ti?**
Gwylio Steff Chest yn bencho.

**Beth fyddet yn ei wneud pe na baet yn gwneud y gwaith hwn?**
Physio i dîm pêl-foli menywod Sweden, ond mae nghalon i wedi ei gosod yn Dunbia.

**Ar beth y gwnest orwario arno fwyaf?**
Cwrw a cheir.

**Pwy oedd y dylanwad mwyaf arnat ti?**
Pan oeddwn yn chwarae rygbi, fy wncwl Emyr. 41 cap dros Gymru.

**Y gwyliau gorau?**
Magaluf 2009 - clean off.

**Pa dair gwlad yr hoffet fynd iddyn nhw cyn marw?**
Seland Newydd, Thailand, Lapland.

**Pa bwerau arbennig fyddet ti'n hoffi eu meddu?**
Bod yn anweladwy.

## Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw
Cyfeiriad

Cod post
Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
**Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc**
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 3 | | | | 1 | 4 |
| | 6 | | | | 9 | | | |
| 8 | 9 | | | 4 | 1 | | | |
| | | 7 | | | | | 5 | 1 |
| | | 9 | 5 | | 4 | 3 | | |
| 5 | 3 | | | | | 6 | | |
| | | | 4 | 8 | | | 9 | 7 |
| | | | 6 | | | | 8 | |
| 7 | 2 | | | | 5 | | | |

**Atebion Swdocw mis Chwefror:**
Llongyfarchiadau i: Rob Phillips, Llety Clud, Llanbed, a diolch i bawb arall am gystadlu: Bet Davies, Manglas, Cwmann; Shirley Walker, Heol-y-Gaer, Llanybydder; Bethan Williams, Neuadd Fryn, Llanybydder; Eurwyn Davies, Heol-y-Gaer, Llanybydder; Eirlys Davies, Eurfann, Llanybydder a Glenys Davies, Gelli Aur, Llanybydder.

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 8 | 7 | 5 | 3 | 6 | 4 | 9 | 2 |
| 5 | 6 | 3 | 9 | 2 | 4 | 7 | 1 | 8 |
| 9 | 2 | 4 | 1 | 8 | 7 | 6 | 3 | 5 |
| 7 | 4 | 9 | 2 | 1 | 3 | 8 | 5 | 6 |
| 6 | 1 | 8 | 4 | 5 | 9 | 3 | 2 | 7 |
| 2 | 3 | 5 | 7 | 6 | 8 | 9 | 4 | 1 |
| 3 | 7 | 2 | 8 | 9 | 5 | 1 | 6 | 4 |
| 4 | 5 | 6 | 3 | 7 | 1 | 2 | 8 | 9 |
| 8 | 9 | 1 | 6 | 4 | 2 | 5 | 7 | 3 |

# O'r Cynghorau Bro



**Cyngor Cymuned Llanwenog**

Cadeirydd: Cyng. Bill Green    Clerc: Gwennan Davies

GWAHODDIAD AM DENDRAU - Mae'r Cyngor Cymuned yn gwahodd tendrau ar gyfer Torri Prysgwydd ar bedwar llwybr cyhoeddus yn y Plwyf. Mae grant ar gael wrth y Cyngor Sir ar gyfer 50% o'r costau. Bydd yn rhaid i'r cwmni gael Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus (Public Liability Insurance) i gyflawni'r gwaith. Bydd yn rhaid gwneud y gwaith ddwy waith yn ystod Haf 2013 ac mae'n rhaid hawlio'r arian erbyn yr 28ain o Awst 2013. Cysylltwch gyda'r Clerc am y mapiau priodol ar 07852 264 336. Rhaid i'r ceisiadau gyrraedd y Clerc yn ysgrifenedig erbyn y 14eg o Fawrth 2013.

Mi fydd praesept y Cyngor Cymuned yn aros yr un peth am y flwyddyn ariannol 2013-2014.

Mae bocs halen newydd wedi ei osod ar yr heol uwchben safle Ysgol Gynradd Llanwenog.

Mae'r Cyngor Cymuned yn adolygu cyflwr pob mainc cyhoeddus sydd yn eu gofal ac yn bwriadu rhoi rhai newydd yn lle'r meinciau sydd mewn cyflwr gwael.

Mae'r Cyngor Cymuned hefyd yn edrych ar sefyllfa glanhau y gofgolofn yn Drefach ac yn cael barn cwmnïau arbenigol i weld a oes modd ei hatgyweirio.

Mae cwmni wedi ei benodi i lanhau cysgod-fannau Cwmsychbant, Cwrtnewydd ac Alltyblaca a gobeithio y caiff hyn ei wneud yn fuan.

Mae cwmni wedi ei benodi i ail wneud y 'facias' a'r 'soffits' yng nghysgod-fan Drefach.

Mae dŵr yn mynd i fewn i Festri Capel Brynteg adeg glaw trwm ac er i ramp bychan gael ei roi yno ddwy flynedd yn ôl nid yw yn atal y dŵr. Mi fydd swyddog o'r adran briffyrdd yn cwrdd gyda chynghorydd y Cyngor Cymuned ar y safle i ddatrys y broblem.

**Cyngor Tref Llanbed**

Y Maer: Kistiah Ramaya, Clerc: Eleri Thomas, Cynghorydd Tref a Sir: Robert (Hag) Harris, Cynghorydd Sir: Ivor Williams. Cyfarfu'r Cyngor ar 31 Ionawr 2013 yn Neuadd yr Eglwys, Llanbedr Pont Steffan. Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod gan y Dirprwy Faer. Offrymwyd gweddi gan Derek Wilson.


PLISMONA - Mae sylw'r heddlu wedi ei dynnu at weithgarwch gwrthgymdeithasol ym Mharc-yr-Orsedd. Mae clwyd wedi'i difrodi yma'n ddiweddar. Er bod Sgwâr Harford yn barth di-alcohol mae diota yn y fangre hon yn dal yn gyffredin. Mae'r heddlu'n dal i gadw llygad.

ENWEBU MAER A DIRPRWY FAER AM Y FLWYDDYN 2013-14 - Enwebwyd Dorothy Williams i swydd y Maer ac Elsie Dafis yn ddirprwy.

GOLEUADAU STRYD - Bwriedir adnewyddu pyst golau ar Ffordd y Gogledd. Ni ellir ar hyn o bryd oleuo'r darn rhwng Eirlyn a Brynfa ar Ffordd y Goedwig gan nad oes cyflenwad trydan ar y safle.

CYFLEUSTERAU CYHOEDDUS - Mae Cyngor Ceredigion ar hyn o bryd yn adolygu cyfleusterau cyhoeddus. Ni fydd modd i'r Cyngor gadw'r cyfan yn agored a holwyd a fyddai Cyngor Tref Llambed yn barod i fabwysiadu'r cyfleusterau ar y Rookery, gerllaw Siop Sainsbury, Stryd St Thomas. Nid yw Cyngor y Dref am gymryd cyfrifoldeb am y cyfleusterau hyn ar hyn o bryd.

# O'r Cynulliad gan Elin Jones



Cefais newyddion da oddi wrth y Gweinidog Busnes Edwina Hart pan gyhoeddodd yn ddiweddar ei bod yn bwriadu creu Parth Twf Lleol yn Nyffryn Teifi. Cyhoeddodd y Gweinidog hefyd y byddai'r ardal yn cael ei blaenoriaethu ar gyfer dechrau'r broses o gyflwyno band eang cyflym iawn. Rwyf wedi bod yn pwyso ers yn hir i gael Ceredigion yn flaenoriaeth ar gyfer buddsoddi mewn band eang cyflym iawn. O leiaf nawr beth bynnag, bydd rhai rhannau o Geredigion yn elwa yn 2013-2014 tra bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu band eang cyflym iawn i bob ardal erbyn diwedd 2015.

Fis diwethaf yn y Cynulliad, nodais fod rhai ysgolion yng Ngheredigion wedi cael eu lleoli ar rwydwaith cefnffyrdd ac mewn rhai achosion mae'r cyflymder yn 40 m.y.a. Mae llawer o rieni a phlant ysgol wedi codi'r mater yma gyda mi ac maent yn credu fod y cyflymder yma yn beryglus ger ysgolion. Roeddwn yn awyddus i gael cefnogaeth y Gweinidog Trafnidiaeth i gael cyflymder o 20 m.y.a. yng nghyffiniau ysgolion ar yr adegau mae ysgolion yn agor a chau. Yn y gorffennol mae hyn wedi bod yn anodd i'w gyflawni ar gefnffyrdd megis yr A487 a'r A44. Yr wyf yn falch bod y Gweinidog Trafnidiaeth wedi cadarnhau y byddai'n edrych yn ffafriol ar geisiadau o'r fath yn y dyfodol. Mae ymgyrch o'r fath yn cael ei gynnal yng Nghapel Bangor ar hyn o bryd ac mi es i yno i'w gefnogi.

Ddydd Sadwrn yr 2il o Chwefror, mynychais rali Cymdeithas yr Iaith i nodi 50 mlynedd ers ei sefydlu. Y dydd Sul hwnnw roedd cannoedd o bobl yn bresennol yn y cynhyrchiad theatrig gan Theatr Genedlaethol Cymru i ail-greu protest Pont Trefechan 50 mlynedd yn gynharach. Mi roedd y ddau ddiwrnod yn llwyddiannus iawn.

Newyddion da oedd clywed fod neuadd Llanddewibrefi wedi derbyn £150,000 oddi wrth y Cynulliad er mwyn ei hadnewyddu. Mae'r neuadd yn cael ei defnyddio gan wahanol gymdeithasau yn yr ardal ac mae'r ysgol leol yn elwa llawer drwy gynnal amryw o weithgareddau yno. Rwy'n dymuno pob llwyddiant iddyn nhw yn y dyfodol ac rwy'n edrych ymlaen at weld y neuadd unwaith y mae'r gwaith wedi ei orffen.

# Sarn Helen

Caryl Davies yn cael ras dda ym mhedwerydd cyfres traws gwlad Gwent yng Nghaer-faddon ac yn gorffen yn safle 49.

Hanner marathon cors Caron Tregaron: 4ydd Michael Davies awr 23 munud 14 eiliad, 7fed Daniel Hooper awr 26 munud 16 eiliad, 11eg Steven Holmes awr 27 munud 08 eiliad, 14 Llewelyn Lloyd awr 27 munud 54 eiliad, 21 Simon Hall awr 30 munud 50 eiliad, 28 Huw Price awr 32 munud 54 eiliad, 44 Nigel Davies awr 40 munud 29 eiliad, 46 Tony Hall awr 40 munud 51 eiliad, 48 Dee Jolly awr 41 munud 45 eiliad, 56 Dawn Kenwright awr 45 munud 32 eiliad, 59 Helen Willoughby awr 45 munud 51 eiliad, 63 Aneurin James awr 47 munud 18 eiliad, 70 Eleri Rivers awr 49 munud 43 eiliad, 92 Ormond Williams dwy awr 10 munud 02 eiliad.

Dydd Sadwrn roedd Pencampwriaeth traws gwlad Cymru ym mharc Glan-usk, Crughywel. Caitlin Page yn cael ras dda ac ar y lap gyntaf yn 12fed ond yn gweithio ei hun lan ac yn gorffen yn bedwerydd mewn 16:56. Ras dan 13 3000 medr 33 Grace Page13:28, menywod hŷn 6,170 medr 23 Dee Jolly 26:50, 25 Caryl Davies 27:22, 28 Dawn Kenwright 28:31.


Cefn Hafod Gorsgoch
01570 434238
Cyri bob nos Wener
£6 y pen
Cwis - nos Iau cyntaf bob mis
[bwyd yn rhan o'r noson]
Croeso cynnes i bawb!

WD Lewis a'i Fab
Masnachwyr Amaethyddol
Agricultural Merchants
Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewis.co.uk
Hefyd yn/Also at
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215

CEGIN GWENOG
Abernant, Llanwenog
Gwasanaeth arlwyo cyflawn ar gyfer pob achlysur
- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes
Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion chi - boed yn fawr neu'n fach
Mair Hatcher
01570 481230 / 07967 559683

Alec Page Gof
Gwaith metal o safon i'r tŷ a'r ardd.
Dewch i drafod eich syniadau.
Yr Efail, Barley Mow, Llambed.
01570 423955
www.alecpageblacksmith.co.uk

WILLIAMS & BOURNE
CYFREITHWYR.
COMISIYNWYR LLWON
Trosglwyddiadau a phob gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.
1 Sgwâr Harford, Llambed
☎ 01570 422206 🖷 01570423540
A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder, Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

# Llanwnnen

**Sefydliad y Merched**

Nos Lun, 4ydd Chwefror cyfarfu'r Sefydliad yng Ngwesty'r Grannell a chafwyd noson bleserus iawn yng nghwmni ein gŵr gwadd, sef y Parchedig Chris Bolton, Llanarth. Areithiodd ar y pwnc 'Henebion' a chafwyd gwybodaeth a chyngor ganddo ar sut i'w cadw mewn cyflwr da. Rhoddodd hefyd hanes a gwerth yr henebion a oedd gan yr aelodau a chafwyd noson hyfryd gyda phawb wedi mwynhau. Cadeiriwyd y noson gan ein llywydd, Mrs Avril Jones gyda Mrs Ann Hughes, ein hysgrifenyddes wrth law. Enillwyr cystadleuaeth y 'Crair hynaf' oedd: 1af Mrs Ceinwen Roach, 2il Mrs Doris Jones, 3ydd Mrs Avril Jones. Enillydd y raffl, a oedd yn rhoddedig gan Mrs Avril Jones, oedd Miss Elsa Thomas. Gweinwyd y te gan Mrs Doris Jones a Mrs Irene Jackson a thalwyd y diolchiadau gan Mrs Irene Jackson.

**Ysgol Llanwnnen**



Bu disgyblion dosbarth Mr Ebbsworth yn cael hyfforddiant hoci yn ystod mis Chwefror gyda Julie McAdam yn Llambed. Dysgodd y disgyblion nifer o sgiliau gwerthfawr ac yn ystod y dydd bu cystadleuaeth hoci rhwng ysgolion y cylch. Enillodd Llanwnnen eu tair gêm gan sicrhau eu lle yn y rownd nesaf i ysgolion y Sir. Da iawn chi blant.

Ddydd Gwener yr 8fed o Chwefror cynhaliwyd diwrnod gwyrdd yn yr ysgol fel rhan o waith y Cyngor Eco i godi ymwybyddiaeth am dranc y fforestydd glaw. Cafwyd sioe dalentau yn y prynhawn a chafwyd pob math o eitemau, o ganu i gymnasteg a dawnsio i ddweud jôcs. Cafwyd prynhawn cofiadwy a da oedd gweld bod gymaint o dalent i gael a bod pawb wedi joio.

Ddydd Mercher yr 20fed o Chwefror daeth Mr John Davies o gwmni Finesse i'r ysgol i dynnu lluniau y disgyblion. Braf oedd gweld pawb yn edrych yn smart dros ben.

Llongyfarchiadau i Heledd Jenkins, Blwyddyn 6, am gynrychioli'r ysgol yng nghystadleuaeth Cogurdd yn ystod y mis. Roedd y cystadlu yn frwd ac roedd cynnyrch yr holl gystadleuwyr yn wych yn ôl y beirniad. Er na fu Heledd yn ddigon llwyddiannus i fynd ymlaen i'r rownd nesaf rydym ni yn yr ysgol yn falch iawn o'i hymdrechion ac yn edrych ymlaen falle at gael blasu y bisgedi ceirios! Da iawn, Heledd.

Bu nifer o blant yr ysgol yn brysur dros yr wythnosau diwethaf yn ymarfer eu sgiliau tynnu llun ar gyfer cystadlu yng nghystadleuaeth Celf a Chrefft yr Urdd. Cafwyd llwyddiant yng nghystadleuaeth Celf a Chrefft yr Urdd yn ddiweddar gyda Heledd Jenkins yn cipio'r ail wobr ar gyfer ffotograffiaeth, Guto Ebbsworth yn cipio'r ail wobr am luniadu llun 2D a Gruff Tomos yn cipio'r trydydd wobr am waith ffelt. Da iawn bawb a fu'n cystadlu.

Bu disgyblion blwyddyn 6 yn Ysgol Bro Pedr ar gyfer diwrnod pontio ddydd Mercher y 27ain o Chwefror. Cafwyd diwrnod bendigedig yn trafod ac astudio gwaith Masnach Deg. Roedd pawb wedi mwynhau ac yn edrych ymlaen at y cyfle nesaf i fynd i bontio yn yr Ysgol Uwchradd.

Cafwyd prynhawn o adloniant pur ddydd Gwyl Ddewi eleni wrth i ddisgyblion yr ysgol gynnal cyngerdd i'r rhieni a'r gymuned. Roedd pawb yn edrych yn odidog yn eu gwisgoedd Cymreig ac ar ddiwedd y cyngerdd cafodd pawb gyfle i gael sgwrs dros baned a phice ar y maen.

Hoffai'r ysgol ddiolch yn ddiffuant i Gyngor Cymuned Llanwnnen sydd wedi cyfrannu £500 tuag at brynu adnoddau newydd cyfoes er mwyn datblygu addysg y disgyblion. Mi fydd y disgyblion i gyd yn elwa o'ch haelioni.



Mae yna nifer o aelodau newydd wedi ymuno â dosbarth Mrs Llwyd yn ystod yr wythnos ddiwethaf wrth i'r wyau a oedd yn y deorydd ddeor. Mae disgyblion y dosbarth yn awr yn brysur yn sicrhau bod y cywion yn iawn ac rydym yn ddiolchgar i nifer o'r rhieni ac i Mr John Jones, Troed y Bryn am ein cynghori ar sut i ofalu am ein haelodau newydd.

**Swyddfa Bost**

Da gweld fod gyda ni siop a Swyddfa Bost newydd yn y plwyf. Pob dymuniad da i'r fenter newydd yn Garej a Siop Allt-fawr.

# Cohebiaeth

**Cyfle i chwarae**

Sefydlwyd elusen RAY Ceredigion yn 2001 i gefnogi gwasanaethau gofal plant tu allan i ysgol, ond erbyn hyn fe gaiff ei hadnabod fel gwasanaeth chwarae mynediad agored i blant yng Ngheredigion. Wrth gyflogi 5 o weithwyr chwarae llawn amser rydym yn darparu cyfleoedd chwarae wythnosol a misol mewn 9 gwahanol gymuned.

Mae ein dwy fan yn llawn adnoddau, defnydd a gweithgareddau gwahanol i blant gael profiad a chwarae gan ddefnyddio'u dychymyg nhw eu hunain. Cyniga'r gwasanaeth gyfleoedd i blant goginio, gwneud celf a chrefft, chwaraeon, adeiladu cysodfannau, peintio wynebau, llithren ddŵr a llawer mwy.

Bwriad y gwasanaeth chwarae difyr hwn yw hybu chwarae tu allan, i gadw plant yn heini ac yn iach ac i helpu datblygu eu sgiliau creadigol, corfforol, cymdeithasol, ac emosiynol a hefyd i weld plant i ddefnyddio parciau ac ardaloedd chwarae o'u cwmpas mewn awyrgylch ddiogel wrth gael eu gorchwylio gan weithwyr chwarae proffesiynol.

Y newyddion da yw bod y gwasanaeth hwn yn rhad ac am ddim ac yn dod yn wythnosol i barc chwarae Maes Y Felin Llambed a pharc chwarae Rhydlanfair, Llangybi bob Nos Lun, ynghyd â 6 lleoliad arall yng Ngheredigion yn wythnosol ac Aberteifi, Maes Y Deri Llambed a Phenparcau yn fisol. Mae'r gwasanaeth ar agor i bob oedran o bob gallu, ond os o dan 5 oed rhaid dod i'r sesiwn chwarae gydag oedolyn neu frawd neu chwaer hŷn. Dewch I ymuno â ni am hwyl a sbri!

Ynghyd a gwasanaeth chwarae mynediad agored, mae RAY Ceredigion wedi ehangu eu gwasanaethau ac yn cynnig hyfforddiant chwarae ac amddiffyn plant i unrhyw fudiad neu unigolion, partïon celf a chrefft i bartïon pen-blwydd, gofal plant, ysgol Glan Mor a hefyd y gwasanaeth diweddaraf yw ein gweithwyr celf a chrefft sydd yn darparu gweithdai celf a chrefft o amgylch Ceredigion. Archebwch eich Gweithdy Celf a chrefft cyntaf am ddim gyda ni.

Mis hwn hefyd agorodd RAY Ceredigion storfa scrap yn Aberaeron lle gwelir nifer o adnoddau a defnydd rhad sydd ar werth, mae'r stôr sgrap ar agor bob Dydd Mercher a hefyd drwy apwyntiad. Dewch yn llu i gael bargenion di-ri.

Am fwy o wybodaeth ewch i ein gwefan neu ffoniwch ni ar 01545 570686.

**Parc Maesyfelin, Llambed pob Dydd Llun 4.00 - 6.00yp ~ Parc Rhydlanfair, Llangybi pob Dydd Llun 3.30 - 5.30yp**
**Cae Maesyderi, Llambed 3ydd Dydd Sul pob mis 11.30yb - 300yp**

# Ysgol Bro Pedr





Gwaith Celf disgyblion Canolfan y Bont a'r Uned Sgilaiu ar y thema 'Patrymau Amgylcheddol'.



Bu blwyddyn 1 Dewi yn dysgu am Flwyddyn Newydd y Tsieineaid yn y dosbarth a diolch i Canton Kitchen am ddod â bwyd hyfryd iddynt flasu.

Cafodd disgyblion blwyddyn 1 Teifi gyfle i ddathlu blwyddyn newydd y Tsieiniaid, sef blwyddyn y neidr eleni a diolch i fam-gu William Hoe o Canton Kitchen am ddod â bwydydd iddynt flasu. Llongyfarchiadau i Sam Jenkins o flwyddyn 4 am gynrychioli'r ysgol yng nghystadleuaeth Sirol Cogurdd a gwneud yn arbennig o dda. Dal ati i goginio Sam. Roedd hi'n wledd i'r llygaid i weld y cacennau blasus a gyfrannwyd ac a gafodd eu coginio yn yr ysgol gan ddisgyblion blwyddyn 4 gogyfer â'r gwerthiant cacennau. Llwyddwyd i godi swm sylweddol i Klaudia sy'n dioddef o Leukaemia a diolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd. Diolch yn arbennig i holl staff yr ysgol ac yn arbennig i ddisgyblion blwyddyn 4 , Mr John, Mrs M Evans a Staff y Gegin am eu cyfraniadau gwerthfawr i'r trefniadau. Bu disgyblion blynyddoedd 5 a 6 draw yn y Campws Hŷn yn trafod syniadau mewn grwpiau i wneud sgript gogyfer â diwrnod y llyfr. Bu heddwas yn yr ysgol yn siarad â'r disgyblion i gyd ynglŷn a diogelwch ar yr heol. Bu disgyblion blynyddoedd 1 a 2 yn ymweld â'r Orsaf Dân yn ddiweddar yn rhan o thema'r tymor, sef Arch-arwyr a diolch yn fawr i'r staff yno am roi o'u hamser prin ac i Mrs Young am drefnu. Bu aelodau'r Cyngor Ysgol a'r Cyngor Eco mewn cyflwyniad ynglŷn â diogelwch a sut i ofalu am gŵn. Cafwyd trafodaethau buddiol. Dymunwn wellhad buan i un o'n staff sef Rose Howell Rowcliffe sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Mae'r disgyblion yn brysur ar hyn o bryd yn ymarfer gogyfer ag Eisteddfod yr Ysgol ac Eisteddfod yr Urdd. Pob lwc i bawb a fydd yn cystadlu yn ystod y pythefnos nesaf.

Rydyn ni'n falch iawn o weld Ifan Morgan o flwyddyn 4 nôl yn ein plith ar ôl iddo dderbyn llawdriniaeth yn ddiweddar.

Bu cystadlu brwd rhwng tri thŷ'r Eisteddfod yma ar gampws hŷn yr Ysgol yn ddiweddar, sef Creuddyn, Dulas a Teifi. Y beirniaid eleni oedd Rhiannon Pugh (Cerdd), Geraint Pugh (Llefaru), Y Prifardd Ceri Wyn Jones (y Gadair), gyda Ms Cath Richards yn beirniadu cystadleuaeth y Goron. Yn ystod y diwrnod a hanner o gystadlu, cyfeiriodd y beirniaid at safon eithriadol o uchel y cystadlaethau llwyfan a'r cynnyrch a ddaeth i law yng nghystadlaethau'r Goron a'r Gadair. Bwriodd nifer o feirdd ati eleni i ymgeisio am y Gadair ar y testun 'Cwlwm'. Enillwyd y Gadair gan Meirion Thomas o dŷ Dulas, a chipiodd Llion Thomas o Ddulas yr ail a'r drydydd safle. Roedd y gadair yn rhoddedig gan Lewis a Ryan Watkins, er cof am Sian Watkins, eu cyfnither. 'Dawn' oedd thema cystadleuaeth y Goron. Cari Lake o dŷ Teifi oedd yn fuddugol, a dyfarnwyd Cari hefyd yn ail, a Jordan King o Deifi yn drydydd. Braf oedd gweld capteiniaid y tri thŷ sef, Meleri Davies a Wyn Davies (Creuddyn); Sian Elin Williams a Llion Thomas (Dulas); Ceri Jenkins ac Aron Dafydd (Teifi) ynghyd â'u his-gapteiniaid a chefnogwyr, yn cydweithio'n arbennig o dda yn ystod cyfnod y paratoi, a'r Eisteddfod ei hun, er mwyn sicrhau eitemau safonol ac amrywiol. Ar ddiwedd y cystadlu, Dulas ddaeth i'r brig gyda 567 o bwyntiau, Creuddyn yn ail gyda 518 a Teifi yn drydydd gyda 493 o bwyntiau. Teifi enillodd y cystadlaethau gwaith cartref hefyd. Nos Iau, y 7fed o Chwefror, cynhaliwyd cyngerdd Pigion yr Ŵyl gyda neuadd lawn yn tystio i wledd amrywiol a difyr o eitemau, megis yr unawdau, deuawdau, meimiau, sgets, darnau offerynnol, grŵp pop a'r dawnsio disgo - rhywbeth at ddant pawb! Gallwn ymfalchïo yn safon uchel y perfformiadau a bwrlwm afieithus y disgyblion. Talodd y prifathro, David Williams deyrnged uchel iawn i'r disgyblion a fu wrthi'n ddyfal ac yn frwdfrydig yn paratoi at yr Eisteddfod. Diolchodd yn ddiffuant i'r staff hefyd, yn arbennig Mrs Gillian Hearne a Mrs Delor James am drefnu a goruchwylio'r cyfan, i arweinwyr y noson, ein prif swyddogion - Vaughan Evans a Cari Lake am eu cyflwyniadau graenus ac am eu gwaith caled yn ystod yr holl flwyddyn ac i Miss Mattie Evans a bois y sain a'r llwyfan am eu gwaith caled a phroffesiynol. Yn wir, diolch i bawb a sicrhaodd Eisteddfod lwyddiannus arall a erys yn y cof am amser hir. Dyma ganlyniadau cystadlaethau'r llwyfan: Grŵp Pop - Dulas; Dawnsio - Teifi; Sgets - Dulas; Meim - Creuddyn; Unawd Offerynnol Iau - Meirion Thomas (D); Unawd Offerynnol Hŷn - Llion Thomas (D); Llefaru Cymraeg Iau - Briallt Williams (D); Llefaru Cymraeg Hŷn - Aron Dafydd (T); Unawd Merched Iau - Natalie Plant (D); Unawd Merched Hŷn - Lowri Elen Jones (C); Unawd Bechgyn Iau - Meirion Thomas (D); Unawd Bechgyn Hŷn - Gethin Morgan (C); Deuawd - Meleri Davies a Meinir Davies (C); Areithio - Siân Elin Williams (D); Parti Merched - Creuddyn; Parti Bechgyn - Creuddyn; Côr - Dulas. Enillodd y canlynol wobrau hefyd: Cwpan y cerddor gorau - Gwawr Hatcher Bl.12 (D); Llefarwraig orau'r dydd - Briallt Williams Bl.8 (D); Actores orau'r dydd - Siân Elin Williams Bl.12 (D); Unigolyn â mwyaf o farciau yn y cystadlaethau gwaith cartref - Gethin Morgan Bl.11 (C). Cwpanau Adran y Gymraeg: Darn gorau o waith Bl. 7 - Gwenllian Jenkins (D); Bl. 8 - Twm Ebbsworth (T); Bl. 9 - Meirion Thomas (D); Bl. 10 +11 - Gethin Morgan (C); Bl 12 + 13 - Llion Thomas (D).

Dyma'r gerdd fuddugol yng nghystadleuaeth y Gadair, Eisteddfod Gŵyl Ddewi Ysgol Bro Pedr 2013:

**Cwlwm**

Perygl yn atseinio,
yn gwaedu ar faes y gad.
Y pabi'n crio
wrth i farwolaeth ei amgylchynu.
Rhuddem a rhosynnau
Yn profi gwir gariad.

Cynhesrwydd y fflamau
ar noson o aeaf.
Pwmpen yr Hydref
yn goleuo'r nos
gyda gwên ddrygionus arni.
Ffrwyth iachus yn llawn blas,
Ei lyncu yn adfywio'r corff.

Haul cynnes mis Awst
yn gwenu fel clown doniol
yn cynhesu calonnau.
Aur yn sgleinio'n llachar
yn dân gwyllt hudol.
Tywod y traeth
yn feddal dan draed.

Dail yn blaguro
yn ffresni'r Gwanwyn,
bywyd newydd ar droed.
Y glaswellt yn emrallt llyfn
ar y mynyddoedd pell.

Môr cynnes di-don
fel bwrdd y gegin.
Awyr digwmwl
yn gartref i'r gwylanod.
Modrwy saffir
fel llygaid fy nghariad.

Crys denim yn hongian,
yn awyr min nos.
Lliw staen o'r India
yn rawnwin iraidd.

Saffrwn yr ardd
Yn glais piws.
Arogl lafant hyfryd
yn deffro'r synhwyrau.

Lliwiau yn clymu
yn harmoni perffaith
yn seithliw'r enfys.

gan 'Cannwyll y Nadolig'
(Meirion Thomas o Ddulas).

# Bro Pedr

Adran y Gymraeg : Llongyfarchiadau mawr i Meirion Thomas 9D ar ennill gwobr arbennig am y darn gorau (oedran Ysgol) yn Adran Lenyddiaeth Eisteddfod Llanfihangel-ar-arth, Chwefror 23ain. Y beirniad oedd y Prifardd Mererid Hopwood ac enillodd Meirion am ei stori “Y Ddamwain”. Gwobrwywyd ef am ei lwyddiant mewn seremoni arbennig yn ystod yr Eisteddfod. Da iawn ti a dal ati!

Yr Adran Gelf: Mae disgyblion Canolfan y Bont a’r Uned Sgiliau Bywyd yma yn yr Ysgol wedi bod wrthi’n paratoi eu darnau celf ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Y thema eleni oedd ‘Patrymau Amgylcheddol’; tra seiliodd disgyblion Canolfan y Bont eu collage ar lun a dynnwyd o draeth a thonnau Aberystwyth, aeth disgyblion yr Uned Sgiliau Bywyd ati i greu darn yn seiliedig ar ddiwylliant Cymraeg drwy foglynnu darnau o ffoil copr ag alwminiwm. Mae’r disgyblion yn awyddus iawn i glywed canlyniadau’r gystadleuaeth.

Yr Adran Addysg Grefyddol: Yn ystod yr hanner tymor diwethaf cafodd grŵp o ddisgyblion blwyddyn 7 gyfle i gymryd rhan mewn gweithdy arlunio symbolau crefyddol. Bwriad y gweithdy oedd rhoi cyfle i ddisgyblion addasu symbolau crefyddol a fyddai wedyn yn cael eu defnyddio i hyrwyddo Gŵyl Cerddoriaeth Sanctaidd y Byd a fydd yn cael ei chynnal ym Mhrifysgol Y Drindod Dewi Sant ym mis Mawrth. Bydd gwaith celf y disgyblion yn cael ei ddefnyddio i greu baneri a fydd yn cael eu harddangos ar hyd tref Llambed er mwyn hyrwyddo’r ŵyl gyffrous, newydd yma.

Taith Sweden: Rhwng yr 8fed a’r 15fed o fis Chwefror, trefnwyd taith i Kalix, gogledd Sweden. Mae Ysgol Bro Pedr wedi cyfnewid â’r ysgol yn Kalix ers 19 o flynyddoedd ac mae’r cyswllt rhwng y ddwy ysgol yn gryfach nag erioed. Cafodd disgyblion o’r chweched dosbarth gyfle i fynd, ac fe wnaeth Llion Thomas, Jonathan Brayley, Edward Bransden, Kate Merrow-Smith, Dafydd Williams a Beca Creamer fanteisio ar y cyfle gwych hwn. Trefnwyd y daith gan Mrs Hedydd Thomas a Mrs Delor James o’r Adran Gymraeg. Ar ôl dau ddiwrnod addysgiadol yn Stockholm, hedfanodd y criw i Luleå, a theithio mewn bws i Kalix. Yno, cafwyd croeso cynnes a chyfle i gwrdd â ffrindiau hen a newydd. Llwyddwyd i greu cyswllt ieithyddol, diwylliannol a phersonol, ac yn gyfan gwbl cafwyd taith fythgofiadwy.
(Gan Llion Thomas, 12 Dewi)

# Llanbedr Pont Steffan

**Grŵp Trafod Amaethyddol**

Daeth dros 70 o aelodau a ffrindiau i’r cinio blynyddol yng Ngholeg y Drindod Dewi Sant yn Llambed. Cyflwynodd y Cadeirydd Mr Teifi Jenkins, Pantyrodyn y gŵr gwadd sef Mr Gwynne Davies o Landdewi Brefi. Gwynne yw Prif Stiward y defaid yn sioe Llanelwedd a Chadeirydd Arwerthiant Hyrddod yr NSA, y farchnad hyrddod fwyaf yn Hemisffer y Gogledd. Yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd pwyllgor Ceredigion o’r Sioe Frenhinol mae yn aelod o’r Bwrdd Rheoli yn Llanelwedd. Cafwyd braslun ganddo o rai o bleserau ac anawsterau’r swyddi gan nodi rhai o’r costau cynyddol.

Yn y gystadleuaeth OGOR flynyddol roedd y canlyniadau fel a ganlyn:-

Silwair Clamp 1. Ioan a Graham Uridge, Coedparc, Llambed. 2. Alan Bellamy, Hendy, Llanybydder. 3. Alan Powell, Gwarcwm, Llanllwni. Byrnau Mawr 1. Dafydd Lloyd Jones, Ystrad Dewi, Llanddewi Brefi. 2. Michael Owen, Y Bryn, Tregaron. 3. Brinley Davies, Penlan, Talsarn. Gwair 1. David Thomas, Maesfforest, Llangybi. 2. Glyn Davies, Lloyd Jack, Felinfach. 3. Brinley Davies, Penlan, Talsarn. Enillwyd Cwpan Coffa Albert Evans am yr ogor gorau gan Ioan a Graham Uridge. Mrs Ann Bellamy, Hendy, Llanybydder fu’n fuddugol yn y gystadleuaeth Ffotograffig.

Diolchodd yr Is-gadeirydd Mr Rhodri Evans, Llanio Fawr i bawb am lwyddiant y tymor ac yn arbennig i’r Ysgrifennydd diwyd Mr Gareth Jones, Cilerwisg a’r Trysoryddion David a John Evans o Fronant.

Nos Fawrth 5 Chwefror 2013 yng Nghlwb Rygbi Llanbed, yn dilyn cyfarfod dan ofal John Crimes o CARA yn trafod Gwerthuso ym myd amaethyddiaeth, cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol. Cafodd y swyddogion canlynol eu hethol:

Llywydd – Teifi Jenkins Blaenrodyn Brongest; Llywyddion Anrhydeddus – Margaret Dalton, Gelligarneddau; Twynog Davies, Frondolau; Arthur Davies, Dolcoed; Aneurin Davies, Blaenplwyf Lodge; John H Jones, Dolaugwyrddion Uchaf; Cadeirydd – Rhodri Evans, Ysgoldy, Llanio; Is-Gadeirydd – Euros Davies, Ffosygaseg, Cribyn; Ysgrifennydd – Gareth Jones, Cilerwisg, Felin-fach; Trysoryddion – Dai a John Evans, Ynys, Bronant; Gohebydd y Wasg – Eira Price, Gelli, 1 Bryn Steffan, Llanbed; Pwyllgor – Iwan Uridge, Coedparc; Eirug Jenkins, Pentrefelin; Sion Evans, Greenwell; Eirios Jones, Garthlwyd.

Nos Fawrth 12 Chwefror cafwyd cyfarfod ola’r tymor yng nghwmni Charlie Morgan – “Meistr Porfa”.




**Ford Gron Llambed: Rhodd i Ambiwlans Awyr Cymru**

Ar 18 Chwefror bydd aelodau Ford Gron Llambed yn cyflwyno siec £1,500 tuag at Ambiwlans Awyr Cymru. Codwyd yr arian fel rhan o her flynyddol y cadeirydd sy’n cael ei chynnal bob hydref i godi arian ar gyfer elusen o ddewis y cadeirydd. Yn 2012 dringodd aelodau’r Ford Gron Gadair Idris a’r Wyddfa a chodwyd dros £ 1,500 mewn nawdd.

Dywedodd y Cadeirydd Kevin Evans, “Roedd yn benwythnos gwych. Cawson ni amser da, codwyd arian ar gyfer achos arbennig iawn ac er bod y tywydd yn ein herbyn, fe ddringon ni ddau o fynyddoedd uchaf Cymru. Rydym yn falch iawn cael cefnogi Ambiwlans Awyr Cymru eleni a helpu i godi proffil yr elusen bwysig yma rydym i gyd yn dibynnu arni”.

Ford Gron Llambed yw cangen leol Ford Gron Prydain ac Iwerddon, clwb ar gyfer dynion ifanc sydd eisiau dod at ei gilydd, cael hwyl a helpu eu cymuned leol. Mae Ford Gron Llambed wedi bod yn weithgar ers dros 40 mlynedd ac yn cefnogi achosion da lleol, yn ariannol ac yn ymarferol. Rydym yn trefnu nifer o ddigwyddiadau bob blwyddyn, gan gynnwys y Tân Gwyllt a’r coed Nadolig, ac yn helpu yn y Ffair Fwyd lle rydym yn gyfrifol am y castell bownsio, a’r Ffair Nadolig. Yn ddiweddar rydym wedi cefnogi Little Princess Trust, Ray Ceredigion, Grŵp Bwydo o’r Fron Llambed a Theatr Ieuenctid Llambed. Rydym hefyd wedi adnewyddu’r ardd yng Nghanolfan Deuluol Llambed, a chreu ardal yn yr ardd yn Ymddiriedolaeth Tŷ Glyn Davis.

Rydym bob amser yn chwilio am aelodau newydd, felly am ragor o wybodaeth, neu os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno, cysylltwch â Rob Phillips ar 07973951611.

Diolch i bawb am eu cefnogaeth yn ystod y tymor ac mae croeso i aelodau hen a newydd i’r cyfarfodydd fydd yn ail-ddechrau ym mis Hydref. Yn y cyfamser, cysylltwch â Margaret Dalton neu Aneurin Davies ynglŷn â’r tripiau. Mae trip y Gwanwyn yn mynd i Henffordd a thrip blynyddol yr Hydref i ardal Barnstaple.

**Cylch Cinio**

Eleni mae’r Cylch yn dathlu deugain mlynedd ers ei sefydlu yn 1973. Ar ddechrau cyfarfod mis Chwefror gofynnodd y Llywydd, Y Bnr. Dan Griffiths, am syniadau gan yr aelodau i ddathlu yr achlysur yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Yr oedd wedi derbyn copi o raglen gyntaf y Cylch am y flwyddyn 1974-75. Y Llywydd oedd y diweddar Barchedig Athro D F Marks ac mae ei fab Richard yn aelod o’r Cylch presennol. Yr ysgrifennydd oedd y Parchg. Goronwy Evans ac mae ef wedi bod yn aelod gweithgar a ffyddlon o’r dechrau. Y siaradwr yng nghyfarfod cyntaf 1974 oedd y Bnr. Aneirin Jones ac mae e wedi ymaelodi yn gymharol ddiweddar.

Gwestai’r noson y tro hwn oedd y Cyng. Alun Lenny o Gaerfyrddin, cyn ohebydd radio BBC Cymru, cyn iddo symud ymlaen i fyd teledu a pharatoi adroddiadau o’r Gorllewin i raglenni newyddion y BBC. Wedi rhoi’r gorau i’w waith amser llawn gyda’r BBC derbyniodd swydd Swyddog Cyfathrebu gydag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac mae wedi bod ynghlwm â sefydlu elusen yr Undeb, Gwella Clwyfau, sy’n trefnu chwarae teg arbennig i gyn-filwyr sy’n dioddef straen a thrawma, boed yn gorfforol neu’n feddyliol. Mae hefyd yn gydlynydd cenhadol i eglwysi’r enwadau eraill yn Sir Gâr.

“Byw ar yr Heol” oedd testun ei sgwrs, storïau am ei brofiadau a rhai o’r personoliaethau a gyfarfu tra’n paratoi adroddiadau yng Nghymru a thramor, a hynny weithiau ar fyr rybudd. Roedd cof byw ganddo am ddigwyddiad erchyll yn ardal Soar y Mynydd flynyddoedd yn ôl, ac yn wahanol iawn i hynny, ymweliad y cyn Arlywydd Jimmy Carter â’r un ardal ac yntau’n troi’i law at gneifio defaid yng Nghwrt y Cadno. Ymysg ei brofiadau eraill, soniodd am ei adroddiadau adeg yr ymgyrch llosgi tai haf. Roedd hefyd yn cofio mwynhau pryd o fwyd ar draffordd yn Ffrainc yn ystod streic y gyrwyr

# Llanbedr Pont Steffan

loriau yng nghwmni rhai o'r gyrwyr. Llai pleserus o lawer oedd mynd i Amsterdam i baratoi adroddiad ar drychineb adeg damwain jymbo jet oedd ar y ffordd i Israel adeg Rhyfel y Gwlff.

Y Bnr. John Phillips a ddiolchodd i'r siaradwr. Roedd wedi bod yn noson ddifyr a diddorol ac yn ei atgoffa am gael ei holi sawl tro gan y siaradwr am wahanol ddigwyddiadau a phenderfyniadau tra 'roedd yn brif swyddog gyda Chyngor Sir Caerfyrddin.

Cinio'r Gwragedd ar Mawrth 7fed yw'r cyfarfod nesaf gyda'r Prifardd Christine James, Caerdydd, yn westai.

**Shiloh a Soar**

Daeth tyrfa luosog iawn ynghyd i'r Festri yn Shiloh brynhawn dydd Iau Chwefror 7 ac mi groesawyd pawb yn gynnes gan y Llywydd, Dorothy Lloyd. Hyfrydwch pur oedd cael croesawu y cyn Weinidog - Y Parch Elwyn Jenkins - a'i weld yn edrych mor dda ar ôl ei anhwyldeb. Roedd y cyfarfod yng ngofal dau o gyn-aelodau Eglwys Shiloh, sef Eirian a Menna Evans ac yr oeddynt wedi paratoi cwis hynod amrywiol a diddorol ar ein cyfer. Bu'r pedwar tîm o wyth yn ymrafael yn egnïol a brwdfrydig â'r cwestiynau a phawb mewn hwyliau arbennig wrth fwynhau'r cymdeithasu. Soniodd Eirian a Menna fwy nag unwaith am y cyfnod hapus a dreuliwyd ganddynt fel aelodau yn Eglwys Shiloh. John Beaufort Williams a gafodd y fraint o ddiolch iddynt am brynhawn cofiadwy ac am y paratoi trylwyr a fu i wneud y cwis mor ddiddorol.

**Shiloh a Soar**

Mae'r noson Bro fy Mebyd bob amser yn boblogaidd fel rhan o weithgareddau'r Gymdeithas Ddiwylliadol ac nid oedd eleni yn eithriad. Y gwestai nos Wener Chwefror 22 oedd Yr Athro Densil Morgan a'i briod Ann. Cyfeiriodd y Llywydd, Dorothy Lloyd at gyfraniad y ddau i ddiwylliant eu bro yma yn Llambed ac yn genedlaethol gan fod Densil wedi cyhoeddi nifer o gyfrolau ym myd Diwinyddiaeth yng Nghymru. Er fod gan Ann wreiddiau yn y de, gan fod ei mam yn dod o Lanelli a'i thad wedi bod yn dysgu yn Ysgol Ramadeg Llandysul, yn nhre Rhyl y cafod ei magu gan i'w thad, Leslie Harries, gael ei benodi yn Arolygwr Ysgolion yn Sir y Fflint. Gweithiodd yn ddiwyd i hybu addysg Gymraeg yn Ysgol Glan Clwyd a'r fro yn gyffredinol. Er bod "sunny Rhyl" bellach yn cael ei chydnabod fel tre ymwelwyr, roedd y bywyd Cymraeg, y capel a dylanwad yr aelwyd a'r ysgol wedi chwarae rhan annatod a phwysig yn ei magwraeth. Yn wir, mi fedrwn gysylltu Rhyl â rhai o enwogion y genedl gan gynnwys Yr Athro Tudur Jones, Gwilym Tilsely, Emyr Humphreys, a Ffred Francis.

Bro gwbl wahanol oedd cefndir ei phriod, Densil gan iddo gael ei eni yn Lorraine, Ohio ger Llyn Eeerie a hynny am fod y teulu wedi ymfudo i'r Amerig i chwilio am waith. Cafodd ei dad waith yn y diwydiant gwneud tun - yn wir roedd yn ystyried ei dad yn Americanwr. Yn anffodus, mi chwalodd priodas eu rieni a dyma ei fam, a'i fam-gu a thad-cu yn penderfynu dod yn ôl i Gymru ac yn ymgartrefu mewn tŷ teras bychan yn nhre Treforus yn 1958 lle roedd yr amgylchiadau yn ddigon anodd a chyfyng. Roedd yn anhapus iawn yn ysgol Pentrepoeth ond bu'r capel, Aelwyd yr Urdd a chariad ei deulu yn ei gynnal mewn cymdogaeth ddigon Seisnig o ran naws ac awyrgylch. Roedd yn dal mewn cysylltiad agos, er hynny, gyda'i dad a oedd yn dal i weithio yn Lorraine ond yn dychwelyd i Gymru yn rheolaidd. Fe wnaeth Densil ac Ann gyfarfod tra'n fyfyrwyr ym Mangor ond braf yw cael eu croesawu yma i Lambed ar ôl byw yn nhre Brifysgol Gogledd Cymru am flynyddoedd. John Phillips gafodd y fraint o ddiolch i'r ddau am rannu gyda ni eu profiadau bore oes ac am fod mor weithgar ym mywyd y fro a'r gymuned.

**Cymdeithas Hanes**

Croesawyd pawb yn gynnes i gyfarfod mis Chwefror gan y Cadeirydd, Selwyn Walters. Prin bod angen cyflwyno'r siaradwraig wadd, Penny David, gan ei bod yn aelod gweithgar o'r Gymdeithas ers ei sefydlu. Mae ganddi ddiddordeb mawr mewn Gerddi, a'i thestun y noson hon oedd dyddiadur a gadwyd gan un o arddwyr Gogerddan, Thomas Northwood, yn ystod 1897.

Roedd Gogerddan yn un o'r tair stad fawr yng Ngheredigion, a mynnai ei thrigolion gael planhigion ecsotig (megis tegeirianau) yn y tŷ a thu allan ynghyd â chael ffrwythau trofannol i'w bwyta trwy gydol y flwyddyn. Roedd hynny'n golygu bod angen tai gwydr ac yng Ngogerddan, roedd cymaint ag ugain a rhagor ohonynt, rhai heb eu gwresogi, eraill ar dymheredd gwahanol, a thŷ gwydr penodol ar gyfer ffrwythau a llysiau gwahanol.

Ganwyd Thomas Northwood yn Sir Amwythig, ac fe'i nodwyd fel 'garddwr' yng nghyfrifiad 1891 pan oedd yn 17 oed. Fel gyda phob crefft, roedd rhaid dechrau ar y gwaelod trwy ddysgu gwneud y pethau bychain. Ond disgwylid i'r garddwyr ifainc ddysgu enwau Lladin y planhigion, pa dymheredd oedd orau iddynt, ayyb. Er mwyn ehangu eu gwybodaeth, symudai rhai garddwyr o un man i'r llall gan Owen. Cafwyd llawer o hwyl a sbri yn chware Bingo yn yr adran a diolch i Anthea am drefnu. Dymuniad plant yr Adran oedd cael dod i'r Urdd mewn gwisg o'u dewis a chynnal Sioe Ffasiynau. Mwynhaodd pawb ac efallai byddwn yn gweld ambell un yn cerdded ar y 'catwalk' yn y dyfodol – pwy a ŵyr!




Yn dilyn sioe ffasiynau lwyddiannus iawn gan 'duet' a Lanlofft a gododd £2,800 at elusen Motor Neurone fis Medi llynedd, cyflwynwyd siec yn ddiweddar gan Janice Williams, 'duet' i Maimie Davies, ar ran y Gymdeithas Motor Neurone. Yn y llun, o'r chwith - Verina Roberts; John Williams; Cyng. Hag Harries, Llywydd y noson; Janice Williams; Heather Price; Maimie Davies ac Angharad Williams, Lanlofft.



Yr Athro D Densil Morgan a Heather Thomas ar ran Prifysgol y Drindod Dewi Sant yn cyflwyno siec gwerth £250.00, elw Raffl y Ffair Nadolig, i Ros Jones ar ran Ambiwlans Awyr Cymru.



Llongyfarchiadau i dîm rygbi Bro Pedr o dan gyfarwyddyd Mr Thomas a Mr Roderick am ennill cystadleuaeth rygbi Sirol yr Urdd. Da iawn chi bois.

**Aelwyd yr Urdd**

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd yn Ysgol Bro Pedr nos Fawrth 29 Ionawr a'r tywydd ddiweddar ac yn dewis eu hoff emynau. Diddorol iawn oedd gwrando arnynt yn rhannu eu profiadau â ni'r gwylwyr.

**Noddfa**

Ar Sul 17 Mawrth am 4 o'r gloch cynhelir oedfa arbennig yn Noddfa yng ngofal y plant a'r bobl ifanc. Estynnir croeso cynnes iawn i bawb. Hefyd yn Noddfa am 7 o'r gloch nos Iau 21 Mawrth bydd Oedfa Eciwmenaidd ac eto estynnir croeso cynnes i bawb.

# Llanbedr Pont Steffan

**Bedyddwyr**

Mae'r trefniadau wedi eu cwblhau ar gyfer ymweliad James a Julia ein cenhadon cyswllt a'u baban Katie Grace â'r cylch ymhen ychydig ddyddiau. Byddwn yn ymgynnull yn Aberduar i'w croesawu am 4 o'r gloch nos Sadwrn 10 Mawrth ac yn edrych ymlaen i fwynhau pryd o fwyd gyda'n gilydd am 5. Y bore canlynol cynhelir oedfa deuluol yn Noddfa am 10 o'r gloch ac yn dilyn byddwn yn mynd i giniawa yn y Coleg.

Yr ydym yn edrych ymlaen yn eiddgar iawn i groesawu'r teulu bach i'n plith ac i glywed James a Julia yn rhannu eu profiadau â ni am eu gwaith amhrisiadwy gyda'r trueiniaid yng ngwlad Periw.

**Gyrfa Chwist**

Ar 30ain o Ionawr cynhaliwyd Gyrfa Chwist yng Nghartref Hafan Deg gyda Mr Iorwerth Evans, Llangybi yn arwain.

Enillwyr fel a ganlyn:- Dynion – 1af –Ifan J. Jones, Bro Henllys, Felinfach. Cydradd 2il - Brian James, Trelech a Peggi Davies, Bro Henllys, Felinfach. Merched – 1af – Beryl Roach, Bro Henllys, Felinfach. 2il – Lil Thomas, Ffostrasol. 3ydd – Morfydd Slaymaker, Llambed. Carden miniature – Dynion – Gwendoline Davies, Llanwnnen. Cydradd Merched – Margaret Jones, Pentrebach a Dilwen Roderick, Stryd y Bont, Llambed. Bwrw allan – Enillwyr – Cathrina Davies, Aberaeron a Gwendoline Jones, Llanybydder. Ail - Ray Jenkins, Llanybydder a Dilwen Roderick, Llambed.

Ar 13eg o Chwefror cynhaliwyd Gyrfa Chwist yng Nghartref Hafan Deg gyda Mr Iorwerth Evans, Llangybi yn arwain.

Enillwyr fel a ganlyn:- Dynion – 1af – Gwendoline Jones, Llanybydder. 2il – Dai Davies, Pensincrig, Cellan. 3ydd – Joan Lewis, Stryd Newydd, Llambed. Merched – 1af – Nancy Davies, Heol-y-Wig, Llambed. 2il – Ceri Lloyd, Ffostrasol. 3ydd – Gwendoline Davies, Llanwnnen. Carden miniature – Dynion – Ifan J. Jones, Bro Henllys, Felinfach. Merched – Lil Thomas, Ffostrasol. Bwrw allan – Enillwyr – Dai Davies, Cellan a Nanna Davies, Stryd Newydd, Llambed. Ail - Ray Jenkins, Llanybydder a Ifan J. Jones, Felinfach.

Bydd Gyrfaoedd Chwist mis Mawrth ar y 13eg a'r 27ain. Croeso cynnes i bawb.

**Merched y Wawr**

Nos Lun, 11eg o Chwefror cyfarfu'r gangen yn Festri Shiloh o dan lywyddiaeth Noleen Davies.

Croesawodd Noleen yr aelodau yn gynnes i'r cyfarfod a chydymdeimlodd â Mair Jones a'r teulu, Pant-teg ar farwolaeth ei chwaer yng nghyfraith.

Yna, aeth Noleen ymlaen i gyflwyno y panel, sef y Cyng. Ann Morgan, Delyth Phillips a Bethan Jones a ddaeth ar fyr rybudd i lanw bwlch.

Y testun oedd Bro fy Mebyd. Soniodd Ann am ei bro hi, sef "Sunny Rhyl" a dyna lle cafodd ei magu tan ddyddiau coleg. Braf oedd ei chlywed yn sŵn am y Cymry Cymraeg oedd yn byw yno ac am y Capel a'r Ysgol Sul lle cafodd ei dwyn fyny yn nyddiau ei phlentyndod. Lle Seisnig yw Rhyl ar y cyfan gan fod cymaint o ymwelwyr yn aros yno trwy'r flwyddyn. Bellach mae wedi ymgartrefu yma yn Llambed gyda'i phriod Densil ac yn gweithio yn rhan amser fel athrawes ac ynghlwm â llawer o weithgareddau eraill.

Rydym yn cyfri Delyth yn un ohonom ni gan iddi gael ei geni a'i magu ar fferm Blaenfallen uwchben pentref Talsarn.

Cawsom hanes yr ardal a'r teulu nôl i'r dyddiau cynnar pan oedd rhai ohonynt yn byw yn Bwlchllan. Roedd Delyth yn hapus braf ar ei byd yn mwynhau bywyd gwledig. Ar ôl gadael yr ysgol aeth i Goleg Aberystwyth ond nawr mae yn gweithio i Gyngor Llyfrau Cymru a hithau eto wedi ymgartrefu gyda'i phriod Rob yn Stryd Newydd ac yn weithgar yn ei maes.


A'r olaf oedd Bethan, hithau wedi cael ei magu ar fferm ger Aberdyfi mewn ardal â golygfeydd godidog ar hyd yr arfordir yn ymestyn lawr mor bell â'r Borth a draw hyd Ynys Las. Ar ôl gadael y Coleg, mae wedi bod yn gweithio ym myd addysg ac yn byw gyda'i phriod Owain yn Trewerin, Cwmann.

Diolchodd Cerina i'r dair am rannu eu profiadau ac am noson o foddhad a pawb wedi mwynhau. Diolchodd hefyd i Avril a oedd yng ngofal y te.

Enillwyd y raffl gan Dolly. Bydd y gangen yn dathlu Gŵyl Dewi ar yr 11eg o Fawrth gyda the Cymreig ac adloniant gan 'Barti Arwasgar'.



Tîm Cwis Adran yr Urdd Llambed yn ennill Cwis Sirol yr Urdd am yr ail flwyddyn yn olynol. Aelodau'r tîm (o'r chwith) Guto, Lucy, Samantha, Owen a Bryn.



Llion a Meirion Thomas yn dilyn eu llwyddiant yn Eisteddfod Llanfihangel-ar-arth.



Plant Ysgol Sul Noddfa yn canu i'r henoed yn Hafandeg ym mis Ionawr.


Cludfwyd Indiaidd
NEHAR



Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.
15% o ostyngiad ar archebion dros £10.00.
Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o weithio mewn sefydliad indiaidd.
10 Stryd y Bont, Llambed
☎ 01570 422893 / 422175

CANOLFAN ADDURNO
AA
A
Dewis arbennig o bapur, paent ac offer i wneud addurno yn bleser.
Llyfrau Patrwm, Offer llaw a phwerus, Polion a thraciau llenni, gwasanaeth torri allweddi a pheiriannau cymysgu paent Dulux a Leyland.
*Arbenigedd ar garreg eich drws.*
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

T. Emyr Jones
Adeiladwr



Araul, Cwmann
☎ 01570 423921
07867 945174

# MiS y PaPUr NewYdD

**Colofn Dylan Iorwerth**

**Potel y Gymraeg yn fwy na hanner llawn**

Mi allwch chi wneud be fynnoch chi gyda ffigurau. A gofyn yr hen, hen gwestiwn, a ydi potel yn hanner llawn neu hanner gwag.

Os gwelwch chi ddyn canol oed pymtheg stôn am y tro cynta', fyddwch chi ddim yn gwybod a yw'n llanc ifanc tenau sy'n magu bol neu'n gawr sy'n colli pwysau. Mae'n fater gwahanol, wrth gwrs, os oeddech chi'n ei adnabod o'r blaen.

A rhywbeth fel yna ydi hi gyda ffigurau'r Cyfrifiad a'r Gymraeg yn ardal Clonc, a Cheredigion. Mi allech chi ddadlau bod yr iaith yn marw neu mi allech chi ddweud fod yma obaith newydd.

Roedd yna lawer o sylw i ffigurau Ceredigion – y canran sy'n siarad Cymraeg trwy'r sir wedi cwympo o dan 50% a dim cymuned ar ôl lle'r oedd mwy na 70% o'r bobol yn gallu'r iaith.

O wneud syms ar gefn darn o bapur sgrap, mae'n bosib rhoi goleuni gwahanol ar hyn i gyd. O gofio bod y Cyfrifiad yn 2011 wedi digwydd pan oedd y myfyrwyr yn eu colegau, mae'r ffigurau wedi'u hystumio.

I ddechrau, roedd yna lawer o'n pobol ifanc ni i ffwrdd yn eu colegau; yn ail, roedd yna filoedd o fyfyrwyr di-Gymraeg yng Ngheredigion ar y diwrnod. Yn ôl fy amcan bras iawn i, mi fyddai'r canran go iawn o siaradwyr Cymraeg yn nes at 55%.

Mae'r bobol a aeth i wythnos ddrama CFfI Ceredigion (a Sir Gaerfyrddin hefyd siŵr o fod) yn gallu deall y ffigurau yna'n well. Beth bynnag ydi'r ystadegau, roedd theatr lawn am wythnos a 14 o glybiau'n cyflwyno drama Gymraeg yn dangos bod y diwylliant yn fywiog iawn o hyd.

Ac, o edrych ar y ffigurau'n fanwl, dyna'n union y maen nhwthau'n ei ddangos hefyd. Ac mae'r rheswm tros ddirywiad y Gymraeg yn hollol glir – symudiad poblogaeth, i mewn ac allan.

Dw i wedi edrych ar ffigurau ardal Llanwenog (sy'n cynnwys Llanwnnen) a Llanbed ac mae yna batrwm clir. Mae'r niferoedd sydd wedi symud i mewn a'r niferoedd sy'n methu â siarad Cymraeg yn agos iawn at ei gilydd.

• Yn ardal Llanwenog, o'r 1854 o bobol tros 3 oed, roedd 1132 wedi eu geni yng Nghymru, 600 yn Lloegr a 122 mewn gwledydd eraill.

• O ran yr iaith, roedd 1160 yn gallu siarad neu ddeall Cymraeg a 602 yn dweud nad oes ganddyn nhw unrhyw sgiliau yn yr iaith o gwbl. (Doedd cyfanswm yr atebion ddim cymaint i'r cwestiwn yma).

• Yn ardal Llanbed, o'r 2970 o bobol, roedd 1581 wedi eu geni yng Nghymru, 982 yn Lloegr a 407 mewn gwledydd eraill.

• ran yr iaith, roedd 1527 yn gallu siarad neu ddeall Cymraeg ac 1277 yn dweud nad oedd ganddyn nhw sgiliau o gwbl.

Yn amlwg, oddi mewn i'r ffigurau yna, mi fydd yna fewnfudwyr a'u plant sydd wedi dysgu Cymraeg a, gwaetha'r modd, mi fydd yna Gymry sydd heb fedru'r Gymraeg, neu ddim am gydnabod hynny. Ond does dim gwadu'r patrwm – mae niferoedd mewnfudwyr a niferoedd dim sgiliau Cymraeg yn eitha' agos.

Y newyddion da ydi fod y sefyllfa wedi newid llai nag y byddai llawer yn ei ddisgwyl rhwng 2001 a 2011 ... does dim tanchwa anferth.

O ddeall hynny, ac o ystyried popeth, mi allwn ni deimlo fod y diwylliant Cymraeg yn rhyfeddol o gry' yn yr ardaloedd yma. A'r her ydi ysbrydoli'r mewnfudwyr – yn enwedig teuluoedd a phlant – i fabwysiadu a defnyddio'r Gymraeg.

Neges fawr y Cyfrifiad ydi y gallwn ni wneud hynny o gryfder. Mae gyda ni rywbeth gwerth ei gynnig iddyn nhw ac mi allwn ni eu croesawu nhw i ymuno â ni yn ddi-ofn.

Rhaid i ni fod yn falch o'r iaith yn y lle cynta' a'i defnyddio hi ar bob cyfle – agor y drws led y pen, heb newid yr adeilad.

**Rhifyn mis Ebrill**
Yn y Siopau
**4ydd Ebrill**

Erthyglau, Newyddion
a Lluniau i law erbyn
**25ain Mawrth**



Cegin *Gareth*
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

*Blodau*
*Cacennau*
*Dathliadau*
*Partïon*


# Yn y Gegin gyda Gareth

**Mis Mawrth Melys.**

Braf yw gwledda ar gynnyrch mis Mawrth yn y gegin, ac mae yna ddigon o resymau i greu danteithion melys y mis yma wrth ddathlu Sul y Mamau a'r Pasg.

Felly, cam naturiol oedd bwrw ati i chwilio a chreu rysetiau melys, ac mae'r Pasg yn gyfle ac yn esgus i fwynhau siocled. Rhowch gynnig ar y rysetiau canlynol sy'n llawn sglein – siocled. Os wedi cael gormod o wyau siocled, toddwch nhw i wneud mwy o bwdinau.

Mwynhewch fis Mawrth, Sul y Mamau a'r Pasg,

Hwyl fawr,
***Gareth.***

**Pwdin Bara Siocled**

**Cynhwysion**



4 croissant neu fara gwyn wedi'i dafellu
100gm o siocled tywyll
142ml o hufen
½ peint o laeth
4 llond llwy fwrdd o rym
100gm o siwgr caster
85gm o fenyn
3 wy

**Dull**

1. Trowch y ffwrn i 180ºC, 340ºF, Nwy 4. Irwch ddysgl 2 beint a gosodwch y bara ynddi.
2. Gosodwch weddill y cynhwysion (heb yr wyau) mewn powlen a thoddwch dros sosban o ddŵr berw.
3. Curwch yr wyau, ac ychwanegwch y gymysgedd siocled yn raddol. Arllwyswch dros y bara a gadewch i aros am tua deg munud.
4. Pobwch am ½ awr a gweinwch gydag hufen.

**Potiau Siocled**

**Cynhwysion**




140gm o siocled
142 ml o hufen wedi'i guro
5 llond llwy fwrdd o Bailey's
1 pot o mascarpone
Siocled wedi'i gratio i addurno ynghyd ag wyau bach siocled

**Dull**

1. Torrwch y siocled yn ddarnau a thoddwch yn y microdon am tua 2 funud.
2. Plygwch y Baileys i'r hufen ac yna i'r mascarpone. Ychwanegwch y siocled, wedi oeri ychydig, i greu effaith marmor. Peidiwch â'i gymysgu yn drwyadl.
3. Llenwch 4 pot 'ramekin' a sgeintiwch â'r siocled neu addurnwch ag wyau bach siocled.

**Cacen Siocled a Chrwst Crwmbwl**

**Cynhwysion Y Crwst**



50gm o flawd plaen
1 llond llwy fwrdd o coco
2 llond llwy de o sinamon
50 gm o siwgr brown
50 gm o fenyn

**Y gacen**

200 gm o siocled tywyll
175 gm o fenyn
200 gm o siwgr brown
3 ŵy
175 gm o flawd codi

**Dull**

1. Trowch y ffwrn i 170ºC, Ffan 150ºC, 325ºF, Nwy 3. Irwch dun pobi 20cm a leiniwch â phapur gwrthsaim.
2. Rhowch gynhwysion y crwst mewn powlen a malwch i greu briwsion.
3. Toddwch y siocled; cymysgwch weddill y cynhwysion a phlygwch y siocled i mewn iddo. Gosodwch yn y tun. Sgeintiwch â'r crwst a phobwch am 50 munud. Gadewch i oeri a rhowch gawod o siwgr eisin drosto a thorrwch yn giwbiau.

# Llanybydder

**Côr Lleisiau'r Werin**

Mae'r mis diwethaf wedi bod yn brysur ofnadwy i ni yn y côr gan ein bod wedi bod yn paratoi ar gyfer dau gyngerdd.

Cymerodd y côr ran mewn cyngerdd arbennig gan Bwyllgor Sefydliad Prydeinig y Galon, Llanybydder, Llambed a'r cylch, yng Ngholeg Llambed nos Wener 15fed o Chwefror.

Canodd y côr amryw o ganeuon gan gynnwys Cwm Tydi, 'All that Jazz' a chytgan Yfory gydag artist y noson, Clive Edwards.

Roedd yn noson hyfryd iawn ac roedd aelodau'r côr wedi mwyhau bod yn rhan o'r cyfan.

Diolch i'r pwyllgor am ein gwahodd i ganu a da iawn chi am godi cymaint o arian ar gyfer yr achos hynod o bwysig yma.

Cyn i ni gael amser i droi rownd roedd cyngerdd arall gyda ni! Cyngerdd oedd hwn ar gyfer Merched y Wawr, cylch Wyre, yn neuadd Llanrhystud ar nos Iau, 21ain o Chwefror.

Roedd y côr wedi paratoi 12 o ganeuon amrywiol, yn cynnwys Cofia'n Gwlad a chadwyn o hwiangerddi a chaneuon traddodiadol.

Gwnaeth Kay arwain y noson, gan ddweud amryw o jôcs wrth y gynulleidfa yn cynnwys hon:

Ar ddechrau gwers Maths un bore, dyma fi'n gofyn:

"Reit Gruffydd Rees, os fydden i yn rhoi dwy gwningen i ti heddi, dwy gwningen fory a dwy to drennydd, sawl cwningen fydde gyda ti?"

"Saith Miss"

"Nage Gruffydd, chwech fydde gyda ti"

"Nage Miss, saith, achos ma da fi un gwningen getre'n barod!"

Diolch fyth, roedd y gynulleidfa'n garedig iawn ac yn chwerthin ar bob jôc!

Roedd Elonwy wedi gwahodd Marian Davies a Yvonne Griffiths o Merched y Wawr Pencader i berfformio sgets ac roedd y gynulleidfa yn chwerthin nerth eu pennau wrth i Marina a Yvonne berfformio. Diolch o galon i'r ddwy am ddod i helpu'r côr ac am eu perfformiad arbennig.

Yn rhan o'r rhaglen, gwnaeth Mary Ffos-ffald adrodd darn am hen wraig yn priodi.

Roedd hwn yn ddarn ffantastig gyda phawb yn chwerthin wrth i Mary adrodd sut roedd hi wedi dod i ben a ffeindio gŵr bach neis! Diolch i chi Mary am ddysgu'r darn yma, ac am eich perfformiad doniol iawn.

Rhaid diolch i Elonwy am ei holl waith wrth baratoi'r côr ar gyfer y cyngherddau yma, i Margaret am chwarae'r piano yn yr ymarferion a'r cyngherddau, ac i bob aelod o'r côr am ddysgu'r caneuon ac am gymryd rhan yn y cyngherddau.

Rwy'n prowd iawn o'r côr am eu holl waith ac am y cyngherddau da iawn maen nhw wedi cymryd rhan ynddynt yn ddiweddar.

Ar ôl yr holl waith caled, rhaid yw joio! Felly, edrychwn 'mlaen at Ginio'r Côr yn Tyglyn ar y 14eg o Fawrth.

Cewch yr hanes i gyd mis nesa!

**Eglwys Sant Pedr**

Dydd Sul, 10fed Chwefror, cynhaliwyd gwasanaeth y Gair; ysgrifennwyd a threfnwyd y gwasanaeth gan Kay a Steve. Thema'r cwrdd oedd Cariad, sef y cariad o fewn priodas neu berthynas.

Ar bob sil ffenest roedd lluniau priodas aelodau'r Eglwys a lluniau o gyplau sydd wedi dyweddïo. Roedd Jean hefyd wedi rhoi benthyg ei ffrog briodas ac roedd hon yn rhan o'r arddangosfa.

Darllenodd Avril ddarlleniad o'r Beibl, sef Corinthiaid 13 sy'n sôn am gariad, wedyn cafwyd dau ddarlleniad - Jean yn darllen 'What is so special about marriage' a Heather yn adrodd 'The One'. Roedd y darnau hyn yn atgoffa'r gynulleidfa am y cariad arbennig rhwng dau berson sydd wedi priodi neu ddyweddïo.

Gosododd Kay dasg i'r gynulleidfa, sef meddwl am y peth gorau mewn perthynas. Eglurodd mai'r peth gorau iddi hi am ei dyweddïad â Steve oedd gwybod ei fod e wastad yna yn gefn iddi ac yn ei charu hyd yn oed pan mae mewn hwyl wael!

Darllenodd Iona ddarn o'r enw 'The secrets of a good marriage', yn sôn am beth sy'n gwneud priodas dda. Ar ddiwedd y cwrdd dros baned o de aeth aelodau'r gynulleidfa o gwmpas i edrych ar y lluniau a rhannu storïau am eu diwrnod mawr.

Diolch i bawb a gymerodd ran, i Jean am chwarae'r organ ac am fenthyg ei ffrog, i bawb a fenthycodd eu lluniau priodas, ac i Steve am ofalu am y CDau a'r te.

Dydd Sul, 17eg Chwefror, cynhaliwyd Ysgol Sul yng ngofal Avril a Kay. Cafodd y merched lot o hwyl yn dysgu am stori Duw yn creu'r byd gan greu collage mowr yn adrodd yr hanes.

Hyfryd yw cael y merched a'u rhieni yn yr Eglwys.

Os ydych yn gwybod am unrhyw blant yn ardal Llanybydder a fyddai'n mwynhau dod i'r Ysgol Sul, cysylltwch a Kay ar 07866985550 neu kaydavies241@btinternet.com Mae croeso cynnes i blant o bob oedran.

Braf yw dymuno pen-blwydd hapus iawn i Mrs. Prosser a ddathlodd ei phen-blwydd yn 90 oed yn ystod y mis. Ond, trist yw nodi fod Mrs. Prosser wedi colli ei brawd annwyl jyst cyn ei phen-blwydd. Derbyniwch ein cydymdeimlad dwysaf.




Diolch i gwmni Dunbia am rodd o £250, arian tuag at waith trwsio wal y fynwent ar hewl Llambed. Gwerthfawrogwn y rhodd hael iawn.

Yn y llun, o'r chwith 'ir dde mae Susan Evans, Warden y bobol; Sarah Slade, Rheolwr Adnoddau Dynol, Dunbia Cymru; Y Parchedig Suzy Bale; Kay Davies, Warden y Ficer a Nia Milcoy, Swyddog Recriwtio Dunbia.

Mae Emyr Williams, Heol y Gaer, wedi rhoi 'bone marrow' yn ystod y misoedd diwethaf. Mae'r mêr asgwrn hyn wedi cael ei roi i berson allan yn Canada a oedd yn sâl iawn. Roedd hyn yn peth hynod o anhunanol i'w wneud ar gyfer rhywun nad yw Emyr yn ei nabod.

Gobeithiwn fod Emyr wedi dod dros y driniaeth a bod ei rodd wedi rhoi bywyd newydd i'r claf.

Ar ôl cwrdd Sul y Pasg am 6 yh, byddwn yn mynd i westy y Llew Du, Llanybydder am swper Pasg. Unrhyw un sydd am ddod, cysylltwch gyda Susan neu Kay.

Dymunwn wellhad buan i bawb sy'n anhwylus a'n cydymdeimlad â'r rhai sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

**Dyweddïo**

Llongyfarchiadau mawr i Llyr Davies, Maesybarcud, Llanybydder a Tracey Davies, Cartref, Llanfihangel ar Arth ar eu dyweddïad yn ystod y mis diwethaf.

Hefyd, fe wnaeth Shaun Jones a Megan Evans, Llwyn Cian ddyweddïo ar ddydd San Ffolant yn ystod eu gwyliau ar y llethr sgïo. Dymuniadau gorau i chwi gyd.

**Pen-blwydd arbennig**

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Mrs Dora Jones, Gwynfa, Llanybydder ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed ar 21 Mawrth.

**Diolch**

Dymuna George Evans, 19 Heol-y-Gaer ddiolch o galon am yr holl gardiau ac anrhegion a gefais ar fy mhen-blwydd yn 90 oed. Hefyd am y bwyd blasus yn Y Grannell, Llanwnnen. Diolch i bawb.

**Yn yr ysbyty**

Dymunwn wellhad buan i Mrs Mair Evans, Dolydd sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Gobeithio y byddwch adre'n fuan.

# Alltyblaca

**Siopau Tlysau Gorau**

Llongyfarchiadau i Tina Wilson, Llwyn Helyg – mae ei siopau yn Llanbed a Chaerfyrddin wedi ennill gwobr arbennig iawn.

Trysor yw enw'r siopau, wrth gwrs, a dyna sydd i'w gael ynddyn nhw. Nawr maen nhw wedi ennill teitl y Siopau Tlysau Gorau yng ngorllewin Cymru yn y Gwobrau Priodas Cenedlaethol.

Dewis modrwyau dyweddïo a phriodi yw dau o'r penderfyniadau pwysica' ar eich ffordd at y diwrnod mawr ac mae Tina a'i thîm yn deall hynny'n iawn.

Yn ôl y cylchgrawn, Tiara, maen nhw'n cynnig gwasanaeth gwybodus a llawn gofal, gan boeni o ddifrif am gael y dewis gorau i chi. Ac mae gan Tina 17 o flynyddoedd o brofiad yn y maes.

Mae Trysor yn cynnig tlysau o gasgliadau enwog fel Trollbeads, Dower and Hall, Old Florence a'r casgliad o aur Cymru, Clogau.

Mae siop Trysor yn Llanbed yn Stryd y Coleg a'r siop yng Nghaerfyrddin yn Stryd y Brenin.

**18 oed**

Dathlodd Jac Wilson, Llwynhelyg ei ben-blwydd yn ddeunaw oed yn ystod y mis. Gobeithio dy fod wedi mwynhau dy ddiwrnod. Oddi wrth y cymdogion!

**Diolch**

Dymuna Mrs Sara Humphreys-Jones, Frongelli ddiolch i'r Cynghorwr Cymuned William Green a'i wraig Ann heb anghofio caredigrwydd Eiddig a Gwen, ac Emyr a Margaret yn ystod ei anhwylder yn ddiweddar. Diolch yn fawr.

# Llangybi a Betws

**CFfI Bro'r Dderi**

Llongyfarchiadau i Aron Dafydd, Dewi Uridge a Gethin Morgan a ddaeth yn drydydd fel tîm yn y gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus dan 16. Roedd y cystadlu'n frwd iawn drwy gydol y dydd gyda 19 o dimau a llongyfarchiadau arbennig i Aron a ddaeth yn gydradd ail fel siaradwr. Fel clwb, cafwyd noson efo'n swyddog bro, Nia, yn chwarae ei gêm newydd, sef Chwist Chwilen a roedd pawb wedi mwynhau.



Eleri James o Flwyddyn 6 Ysgol y Dderi a fu'n cymryd rhan yng nghystadleuaeth Cogurdd yn ddiweddar.




Susan Owens Jones o Ysgol y Dderi yw enillydd rhanbarthol y gystadleuaeth Cogydd Ysgol y Flwyddyn 2013. Bydd Susan yn cystadlu nesaf yn rownd derfynol gwledydd Prydain yn Llundain ym mis Mai.

**Ysgol Y Dderi**

Ddechrau mis Chwefror cawsom Ddiwrnod Rhyngwladol yn yr ysgol, a bu pawb wrthi'n brysur yn mwynhau amrywiol weithgareddau yn seiliedig ar Yr Eidal, Norwy, Groeg, Denmarc, Pegwn y Gogledd a Chymru. Gwisgodd y plant a'r staff mewn dillad neu liwiau perthnasol, ac fe gawsom bob math o brofiadau, fel coginio pice bach, creu baneri a sialens adeiladu'r Tŵr Pisa talaf. Diwrnod diddorol iawn!

I gyd-fynd â thema'r hanner tymor diwethaf, aeth dosbarthiadau Blwyddyn 3 a 4 i fryngaer Celtaidd Castell Henllys, yn sir Benfro, am y dydd. Er ei bod yn ddiwrnod oer dros ben, cawsom amser gwerth chweil wrth fwynhau blas ar fywyd y Celtiaid drwy brofiadau oedd yn dod â'r Oes Haearn yn fyw. Bu'r plant yn malu hadau gwenith er mwyn gwneud blawd, yn pobi bara, gwehyddu, troelli gwlân, helpu i adeiladu wal tŷ crwn a chael peintio eu hwynebau gyda phatrymau Celtaidd.

Aeth plant Blwyddyn 6 i Lambed un dydd Iau braf (ond oer dros ben yn ôl Miss Rhian a Ms Sheila!) i gymryd rhan mewn twrnament hoci i ysgolion y dalgylch. Cafwyd sawl gêm arbennig o dda a'r plant wrth eu bodd yn ymarfer eu sgiliau. Da iawn nhw.

Cynrychiolodd Eleri James o Flwyddyn 6 yr ysgol yng nghystadleuaeth Cogurdd yn ddiweddar. Cafodd y plant hynny sydd yn mynychu ein Clwb Coginio wythnosol gyfle i gystadlu mewn rownd rhagbrofol yn yr ysgol rai wythnosau 'nôl, ac Eleri oedd yn fuddugol, felly hi oedd â'r dasg o baratoi bwydlen tri chwrs ar gyfer y gystadleuaeth yn Llambed. Da iawn ti am dy ymdrech Eleri, a diolch i bawb a fu'n cynorthwyo.

A sôn am goginio, ymddangosodd Mrs Susan Owens Jones, ein cogyddes, ar raglen "Ffeil" ar S4C yn ddiweddar er mwyn sôn am ei rhan yng nghystadleuaeth "Cogydd Ysgol y Flwyddyn." Aeth i Goleg Glannau Dyfrdwy yn Sir Fflint i goginio pryd dau gwrs, ac wedi'r holl waith caled, hi oedd yn fuddugol. Fe fydd Susan yn mynd ymlaen nawr i gystadlu yn y rownd derfynol yn Llundain ym mis Mai. Mae hi bob amser yn paratoi prydau maethlon, blasus i ni yn yr ysgol ac rydym yn falch iawn o'i llwyddiant. Llongyfarchiadau a phob hwyl iddi!

**Hamdden**

Croesawyd pawb i gyfarfod mis Chwefror gan y Llywydd Janet Farrow, gan roddi croeso arbennig i'r wraig wadd sef Jennifer Cairns. Treuliwyd prynhawn addysgiadol a diddorol iawn yn ei chwmni pan gafwyd lluniau a hanes llawer o lysiau traddodiadol Cymru. Enillwyd y raffl gan Barry Williams, Ann Bennet, Rowena Williams, Alunda Jones, Gwenda Thomas, Sally Davies a Mair Spate. Rhoddwyd pleidlais wresog o ddiolch i'r wraig wadd am brynhawn arbennig iawn a difyr gan Rowena Williams. Cafwyd paned o de a bisgedi wedi eu rhoddi gan Dilys Godfrey ac Yvonne Thomas i ddiweddu.

Dathlwyd Gŵyl Ddewi yn y Castle Green ar Ddydd ein Nawddsant.

**Cydymdeimlo**

Estynnir cydymdeimlad dwys y fro â theulu Arfryn Coxhead. Bu iddynt fod mewn profedigaeth yn ddiweddar pan gollwyd perthynas agos i'r teulu yn annisgwyl. Yn yr un modd, cydymdeimlir â theulu a ffrindiau y diweddar Mr David Lewis-Jones – un a aned ac a faged yn Llangybi ond a oedd wedi teithio ymhell o'i gynefin cyn dychwelyd i Lambed i ymddeol , ac yna treulio ei flynyddoedd olaf yng nghartref Allt y mynydd. Dathlwyd ei barti pen-blwydd yn 100 oed ym mis Tachwedd 2012 yng Nghapel Maesyffynnon.

**Pen-blwydd Arbennig**

Llongyfarchiadau calonnog i Rhodri Pugh-Davies ar ddathlu ei ben-blwydd yn 18 oed yn ystod y mis.

**Merched y Wawr**

Yng nghyfarfod mis Chwefror treuliwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni y Bonwr Dafydd Morgan o Dregaron ac fe'i croesawyd yn gynnes iawn gan y Llywydd, Gwyneth Jones. Sôn y bu'r gŵr gwadd am ei ddiddordeb mewn cerdded a mynydda ac fel y mae wedi crwydro i gyfandiroedd Asia, Affrica ac Ewrop, ac yn gobeithio ymweld â De Amerig y flwyddyn nesaf. Roedd yn noson addysgiadol a diddorol a phawb wedi mwynhau yn enfawr. Fe ddiolchwyd iddo gan Deborah Jones am hanes y teithiau a'r lluniau cofiadwy. Rhoddwyd gwobrau'r raffl gan Glenys Lloyd ac fe'u henillwyd gan Iris Quan a Mair Spate. Bydd y cyfarfod nesaf yn y Pantri ar Fawrth 20fed am 6:30 o'r gloch pryd y disgwylir y Bonwr Emrys Davies i'n hannerch.

**Cydymdeimlo**

Syfrdanwyd ardal eang pan ddaeth y newyddion am farwolaeth annisgwyl Mr Vincent Evans, Yr Hen Reithordy mewn damwain angheuol. Cydymdeimlir yn ddwys â'i ferch Annabel a'i theulu a'r holl gysylltiadau teuluol eraill a ffrindiau.



Dosbarthiadau Blwyddyn 3 a 4 Ysgol y Dderi ym Mryngaer Celtaidd Castell Henllys, Sir Benfro.

# Llanllwni

**C.Ff.I Llanllwni**

Fe fuodd dau aelod o'r clwb, sef Anwen a Ifor yn cynrychioli Sir Gâr yn beirniadu gwartheg Biff yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd. Roedd Ifor wedi cael ei ddewis i gystadlu yn yr adran dan 16, ac Anwen yn yr adran dan 18, lle ddaeth yn drydydd. Da iawn i chi eich dau.

Mae'r clwb wedi bod yn brysur iawn unwaith eto yn ystod yr wythnosau olaf yma. Nol ddiwedd Tachwedd aeth dros 40 o aelodau dewr i sglefrio ar yr ia yn Abertawe lle cawsom yr hwyl rhyfedda yn ceisio cadw ar ein traed. Mae'n wir i ddweud fod rhai ohonon ni yn eithaf da - ond gwnaeth eraill dreulio fwy o amser ar eu penolau na'u traed!

Ddechrau Rhagfyr aethom ar ein taith flynyddol i Theatr Felin-fach i weld y pantomeim 'Rom Com ar y Comin' a ni chawsom ein siomi. Noson dda!

Treuliom ddwy noson allan yn yr ardal yn canu carolau. Diolch yn fawr iawn i'r rhai a wnaeth agor eu drysau i ni yn yr oerfel a'r glaw dychryn, ac yn arbennig am yr haelioni a gawsom er mwyn sicrhau cyfanswm teilwng iawn o £701.56 i adran urology Ysbyty Birmingham lle mae un o'n aelodau wedi cael triniaeth ers yn faban. Diolch hefyd i John ac Ann am y croeso a'r cawl twym a oedd yn ein disgwyl yn y Talardd ar ddiwedd y ddwy noson.

Cawsom groeso hefyd yn y Talardd ar gyfer ein parti Nadolig, lle cafwyd noson bleserus iawn.

Ddechrau'r flwyddyn cafwyd ein noson flynyddol i gyflwyno sieciau ac fe drosglwyddwyd dros £3000 at achosion da. Aeth swm y casgliad o'r noson Cwrdd Diolchgarwch i'r clwb, sef cyfanswm o £67.10. Fel soniwyd eisoes, aeth cyfanswm o £701.56 i adran urology Ysbyty Birmingham, arian ein canu carolau.

Daeth cyfanswm ein sioe a threialon cŵn defaid blynyddol, a gynhaliwyd nol diwedd mis Awst, yn £2373.73, a chyflwynwyd yr arian hwnnw i Ambiwlans Awyr Cymru. Arian anhygoel, rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno, a mae ein diolch ni fel clwb am haelioni'r holl bobl sydd yn ein cefnogi ni yn y gymuned a'r ardal leol. Diolch i chi gyd.

Ar y 26ain o Ionawr, fe fuodd dau dîm o'r clwb yn cystadlu yng nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus y Sir. Ar ôl bore brwd o gystadlu, fe ddaeth tîm Ifor Jones, Sioned Howells a Betsan Jones yn ail. Llongyfarchiadau i Betsan am ddod yn drydydd fel cadeirydd, ac i Sioned am ddod yn ail fel diolchydd. Diolch yn fawr i Eileen Davies am hyfforddi'r timau mor dda eleni eto.

Yn ddiweddar, fe fu'r clwb yn cystadlu yng nghystadleuaeth Ddrama'r Sir. Diolch yn fawr i Mrs. Marina Davies am eu dysgu. Llongyfarchiadau i Owain Davies am ennill yr Actor Gorau o dan 18, am y drydedd flwyddyn yn olynol. Da iawn ti!

Ar noson ola'r dramâu, fe gyhoeddwyd pwy oedd wedi cael eu dewis fel aelodau hŷn ac iau y sir. Llongyfarchiadau enfawr i Ifor Jones, a ddaeth yn Aelod Iau'r flwyddyn yn Sir Gaerfyrddin. Pob lwc yn rownd nesaf Cymru!

Nos wener yr 22ain o Chwefror, fe gynhaliodd y clwb eu digwyddiad cyntaf i ddathlu'r 70 mlynedd, sef cyngerdd yn neuadd Ysgol Dyffryn Teifi. Roedd yr hanner cyntaf yn llawn o ddoniau disglair aelodau'r clwb, ac yn yr ail hanner cafwyd perfformiad o'r ddrama. Braf oedd gweld cymaint wedi dod i'n cefnogi ar y noson. Llywyddion y noson oedd Mr a Mrs Eric Davies, Neinant. Diolch iddyn nhw am eu presenoldeb ac am eu rhodd garedig tuag at goffrau'r clwb. Diolch i Eric hefyd am ei eiriau pwrpasol. Arweinydd y noson oedd y Parchedig Ganon Eileen Davies, neu i roi iddi ei henw cywir, Eileen Gwndwn! Diolch yn fawr iddi am redeg y noson mor hwylus.

Ar y 23ain o Chwefror, fe gynhaliwyd Cystadleuaeth Ddarllen y Sir. Fe ddaeth canlyniadau arbennig i'r clwb. Yn sicr, bore'r crysau gwyrddion oedd hi! Daeth tîm Betsan Jones, Rhian Davies a Luned Jones yn fuddugol o blith un-ar-ddeg o dimau, ac fe ddaeth tîm Sioned Howells, Siriol Howells a Mared Phillips yn ail! Derbyniodd Betsan y cwpan am yr unigolyn gorau, a hynny am yr ail waith. Cafodd Betsan a Sioned eu dewis i fynd ymlaen i gystadlu ar lefel Cymru ymhen y mis. Bore ysgubol i Glwb Ffermwyr Ifanc Llanllwni. Diolch yn arbennig i Mrs Marina Davies am hyfforddi'r ddau dîm ar gyfer y gystadleuaeth.

Y digwyddiad nesaf sy gennym fel rhan o'r dathliadau 70eg mlynedd fydd Taith Tractorau o amgylch yr ardal sydd i'w chynnal ddydd Sul y 14eg o Ebrill. Mwy o fanylion yn y rhifyn nesaf.

**Anrhydedd**

Llongyfarchiadau gwresog i Canon Eileen Davies, Gwndwn ar gael ei gwneud yn Gymrawd i Gymdeithas y Sioe Frenhinol. Pob dymuniad da i chwi Eileen.

**Cydymdeimlo**

Tristwch mawr oedd clywed am farwolaeth Emrys Evans, Llannerch [gynt o Undergrove] yn 86 mlwydd oed. Yr oedd yn adnabyddus iawn dros ardal eang ac am flynyddoedd wedi bod yn ysgrifennydd Eglwys Sant Luc, Trysorydd Pwyllgor yr Henoed, Aelod o Bwyllgor y Neuadd Gymunedol ac wedi cynorthwyo gyda'r adnewyddu. Bu hefyd yn casglu i Cymorth Cristnogol yn ei ardal ac yn frwd iawn dros y Calan Hen a chanu Plygain yn y cylch. Bu yn aelod ffyddlon o'r cyngor cymuned am flynyddoedd ac yn gadeirydd mwy nag unwaith. Ei brif ddiddordeb arall oedd Helfa Cŵn Cletwr lle roedd yn ymddiriedolwr ac fe'i gwelwyd mewn helfeydd tan yn ddiweddar iawn.

Estynnir ein cydymdeimlad dwys i'r teulu a'r holl gysylltiadau. Collwyd ffrind a chymwynaswr gweithgar.



Owain Davies CFfI Llanllwni yn cael ei wobrwyo fel yr Actor Gorau dan 18 oed yn Nghystadleuaeth Ddrama CFfI Sir Gaerfyrddin



Aelodau CFfI Llanllwni yn syflwyno sieciau i elusennau.

**Diolch**

Dymuna David James, Coedmore ddiolch o galon am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 90 oed.

**Gwellhad Buan**

Gwellhad buan i Ken Howells, Gwarallt ar ôl cael triniaeth i asgwrn ei glun yn yr ysbyty.

**Ysgol Llanllwni**

Aeth disgyblion blwyddyn 4, 5 a 6 i weld sioe 'Ar eich Marciau' gan gwmni Theatr Arad Goch yn Neuadd Cwmann. Mwynhawyd y perfformiad yn fawr a chafodd y plant weithdy buddiol ar y diwedd.

Os dymunwch brynu tocyn Clwb Cefnogwyr yr ysgol am y flwyddyn 2013-2014 cysylltwch â'r ysgol cyn gynted â phosib. Diolch.

Bydd Cymdeithas Rhieni, Staff a Ffrindiau'r ysgol yn cynnal noson 'Cawl a Chân' yn neuadd yr Eglwys Llanllwni, nos Wener, 8fed o Fawrth am 7.30y.h. Bydd eitemau gan blant yr ysgol a bydd yr elw yn mynd tuag at gronfa'r ysgol. Croeso cynnes i bawb.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol am fis Chwefror: £10.00 – 9 – Eirlys Owen, Cwmderi, Llanllwni; £5.00 – 176 – Donna Jones, Bro Nantlais, New Inn; £2.50 – 209 – M. Parry, Borthyn, Llanllwni; £2.50 – 40 – Mair ac Alun, 1 Penrhiw, Aberbanc; £2.50 – 108 – Rhian Davies, Brynhedd, Llanllwni.

**Cylch Ti a Fi**

Mae yna groeso i rieni a'u plant ddod i'r cylch Ti a Fi yn Ysgol Llanllwni ar fore Iau rhwng 9 a 11. Nod y sesiynau Ti a Fi yw cynnig cyfle i rieni / gwarchodwyr fwynhau chwarae gyda'u plant a chymdeithasu mewn awyrgylch Gymreig. Mae'r plant yn cael cyfle i wneud gwaith crefft, canu a chwarae â'r teganau amrywiol sydd gyda ni yn y Cylch.

**Bingo Pasg**

Cynhelir Bingo Cylch Meithrin Llanllwni ar Nos Lun y 18fed o fis Mawrth yn Nhafarn Talardd Llanllwni i ddechrau am 8yh. Bydd yna wobrau ardderchog a lluniaeth ysgafn ar gael.

# Cornel y Plant

I blant dan 8 oed


Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,

Wel gobeithio eich bod wedi mwynhau eich gwyliau hanner tymor. Rwy'n siwr eich bod chi gyd wedi bod yn brysur yn yr ysgol yn ddiweddar yn paratoi ar gyfer Eisteddfod yr Urdd. Ydych chi'n cystadlu? 'Dw'i wrth fy modd yn gwylio'r plant ar y teledu yn cystadlu.


Unwaith eto y mis hwn bu llawer ohonoch wrthi'n lliwio llun fy ffrindiau yn mwynhau yn yr eira. Llongyfarchiadau i bawb ond yn enwedig i Jac Rees o Gwmsychpant, Ellie Lona Gorman o Aberystwyth ac Elen Morgan o Drefach am luniau lliwgar. Ond mae un yn dod i'r brig sef un taclus Gwion a Morus a oedd ar eu gwyliau yn Llanybydder ond yn byw ym Mhenllyn.

Bydd hi'n wyliau Pasg eto cyn hir, ydych chi yn hoffi mynd ar helfa wyau pasg? Ydych chi wedi cael ambell i wy pasg yn barod? Wel beth am fynd ati i liwio llun yr wyau Pasg a'r Pili Pala? Cofiwch ddychwelyd y llun mewn digon o amser.




Enillydd y mis!

Gwion a Morus



| | |
|---|---|
| **Enw:** | **Oed:** |
| **Cyfeiriad:** | |
| | |
| | |

# Enwau Lleoedd Lleol

gan David Thorne




**PENTLEPOIR a MAENORBŶR (50)**

Y ffurf gynharaf ar yr enw cyntaf yw Pontillpir (1542) ac yn yr enghreifftiau sydd wedi goroesi mae ffurf yr elfen gyntaf ar wahanol gyfnodau yn amrywio rhwng pont-/pent-/pant-. Mae llu o amrywiadau i'r ail elfen yn ogystal: -pier/-poer/-poir/-pir. Mae'n bosibl fod enw'r lle yn llygriad o enw Cymraeg sy'n cynnwys yr elfen 'pentref' a'r enw personol 'Poer', tebyg i'r hyn a geir ym Maenorbŷr. Seisnigeiddiwyd Maenorbŷr yn Manorbier erbyn y 14 ganrif. Pwy bynnag oedd Pŷr neu Pir mae'n ymddangos mai ef hefyd a goffeir yn yr enw Ynys Bŷr sydd ryw bedair milltir o Maenorbŷr. Coffeir person o'r enw Pŷr hefyd, o bosibl, mewn enw fferm ym mhlwyf Llanllwni, sef Llwynpyr sy'n dalfyriad diweddar o Noethlwyn pur (1785).

Un awgrym arall a wnaed i geisio dehongli Pentlepoir yw mai'r elfennau 'pen' a 'tyle' yw'r elfennau cyntaf yn yr enw. Yr anhawster gyda'r awgrym hwn, sut bynnag, yw na ddigwydd y ffurf 'tyle' yn iaith Sir Benfro.

**EGLWYSWRW**

Mae amrywiaeth o ffurfiau'n digwydd ar yr enw hwn a fawr o gysondeb rhyngddynt. Ceir Clefferouw, Cleserowe yn 1291. Mae'n debygol bod y rhain yn cynrychioli Eclesserouw a gallai'r enw olygu 'eglwys Erow'.

Yn ôl yr hanesydd a'r achyddwr George Owen (1522-1613) roedd yr eglwys wedi ei chysegru i sant o'r enw Erow; mae'n cofnodi, yn ogystal, fod capel yn y fynwent o'r enw Capel Erow a bedd y sant yn y capel hwnnw. Yn ôl ffynhonnell arall o'r 16 ganrif, sef Calendr Dyfed, mae'r eglwys wedi'i chysegru i Urw Forwyn.

Awgrym arall yw mai Gwro neu Gwrw yw'r ail elfen, ond nid oes cofnod am neb o'r enw hwn. Gallai Gwro, serch hynny, fod yn ffurf anwes ar enwau megis Gwrfael, Gwrgi neu Gwrnerth ac felly yn seiliedig ar yr enw 'gŵr'.

Yn ei gyfrol 'Crwydro Sir Benfro' dywed E Llwyd Williams iddo glywed rhai yn defnyddio'r ffurf Eglwys-erw a sôn bod yr eglwys wedi ei chodi ar erw o dir; noda mai -wrw yn unig a geir ar dafod yr ardalwyr.

**LAWRENNI**

Gallai'r enw hwn adlewyrchu ffurf ar enw Cymraeg a lwyddodd mewn ardal Seisnigedig. Mae'n ddigon posibl mai 'llawr' yw'r elfen gyntaf a hwnnw'n cyfeirio at y tir isel ar y gwastatir o gwmpas Afon Cresswell. Mae'r ail elfen yn ansicr, yn ogystal, ond efallai mai enw personol sef Enni a geir yma. Ceir Caer Enni yn Sir Feirionnydd.

Un o gymwynaswyr CLONC a ofynnodd imi drafod rhai o'r enwau sy'n ymddangos uchod. Bu ar daith i Sir Benfro yn ddiweddar a chael ei swyno a'i ddrysu gan rai o enwau lleoedd y sir honno. Mae'r arwerthwr ei hun yn berson hollol hynaws, ond mae'r enwau hyn o Sir Benfro yn enwau anodd iawn a'r atebion gen i heb fod yn gwbl foddhaol.

# Oriel y mis



Capteiniaid Teifi, Creuddyn a Dulas yn dathlu ar ôl diwrnod llwyddiannus iawn yn Eisteddfod Ysgol Bro Pedr.



Plant Cylch Ti a Fi Cwrtnewydd yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi.





Tîm 7 bob ochr dan 13 cymysg a'r Tîm Dan 15 Clwb Hoci Llanybydder a fu'n cystadlu mewn Twrnamaint ym Mhenfro ym mis Chwefror. Mae'r Timau Iau , fel y gwelir yn y lluniau yn gwisgo eu crysau hoci newydd sydd yn rhoddedig gan Glwb Athletig Llanybydder. Mae'r timau yn ymarfer bob nos Fercher ar yr astro yn Llambed o 6.30 tan 7.30 yn barod ar gyfer cystadlu yn y Twrnameintiau canlynol: Dydd Sul Mawrth 10fed 2013 yn Aberdaugleddau; Dydd Sul Mawrth 24ain 2013 yn Ninbych-y-Pysgod. Gobeithiwn hefyd gynnal Twrnamaint ym mis Ebrill yn Llambed. Mae'r Tîm Merched wedi ail gydio yn eu gemau yn y flwyddyn newydd, gan barhau i chwarae'n dda ac yn frwdfrydig o dan gapteniaeth Gemma Hope a Claire Richards, yr Is Gapten. Enillodd y merched oddi cartref yn erbyn Crymych o 3 gôl i 1 gyda Heledd Tomos, Caryl Rees a Beca Russell yn sgorio un gôl yr un. Cafodd Heledd hefyd ei dewis fel Chwaraewraig y Tîm yn y gêm honno. Cafodd y Tîm fuddugoliaeth oddi cartref yn erbyn Prifysgol Aberystwyth o 5 gôl i 0. Sgorwyr y goliau oedd Laura Jones - dwy gôl, ac un gôl yr un i Carys Wilkins, Gemma Hope a Caryl Rees. Caryl hefyd a gafodd ei dewis fel Chwaraewraig y Tîm. Mae'r Tîm wedi chwarae 9 gêm yn y Gynghrair erbyn hyn gan ennill 7 a cholli 2. Maent wedi sgorio 38 gôl a gydag ond 11 gôl yn eu herbyn. Pob dymuniad da nawr ar gyfer gweddill y gemau.


Gorsaf Brawf MOT

**GAREJ BRONDEIFI**

Heol Llanfair Road, Llambed, SA48 8JX

* Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
* Teiars am brisiau cystadleuol
*Ceir newydd ac ail law ar werth
* Batris * Brecs * Egsost
*Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

CYFRi

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:

**Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol a diogelwch incwm.**

Gary Davies BSc(Hons), Cert PFS
Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn ailfeddiannu am eich cartref.

# Gweithgareddau'r Ysgolion



Rhai o ferched ysgol Llanwenog yn eu gwisg traddodiadol yn dathlu Gŵyl Ddewi Cloe Chanel, Hafwen, Sioned Fflur, Cloe Marie, Roseanna a Molly.



Rhai o blant Bl 2 Ysgol Bro Pedr yn mwynhau cawl Gŵyl Ddewi: Logan, Amy, Ffion, Shannon, Dylan, Gregory a Connie.



Ymwelodd Iolo Williams, cyflwynydd teledu a chyn swyddog RSPB ag Ysgol y Dderi fel rhan o Bythefnos Gwylio Adar yr RSPB sy'n rhedeg bob blwyddyn tua diwedd mis Ionawr. Gydag ef mae rhai o'r disgyblion a oedd wedi adeiladu blychau nythu a gwneud binocwlars i wylio adar yn eu gerddi.



Disgyblion Ysgol Bro Pedr, Llanbedr Pont Steffan wedi trefnu bore gwerthu cacennau er mwyn codi arian i ddisgybl o flwyddyn 4 sy'n dioddef o Leukaemia. Gwelir Klaudia gyda phlant ei dosbarth.